CLONC

golygydd@clonc.co.uk Enillydd Gwobr Menter Cymunedol Gwobrau Busnes Ceredigion 2007

ISSN 1753-1071

Rhifyn 260 - 50c
Chwefror 2008

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Gillian - Cofio'i gwreiddiau Tudalen 13

Colofn newydd o gyfrinachau Tudalen 12

Haelioni'r ardal hon Tudalen 24

Beirdd ein gwlad a phlant ein bro

Ceri Wyn Jones a hyfforddiant o fath gwahanol yng Nghlwb Rygbi Llambed

Caryl Parry Jones a disgyblion Ysgol Gynradd Llanwnnen

Priodasau...

Rhian Jones, Gerlan, Llanbed a Llyr Williams o Fryncroes ger Pwllheli a briodwyd yng Nghapel Brondeifi Llanbed yn ddiweddar. Llun: Keith Morris.

Ar 31ain Rhagfyr 2007, yn Eglwys Sant Luc Llanllwni, priodwyd Angela, merch Kevin a Beryl Doyle, Cwmann, â Richie, mab Jim ac Elisabeth Craig, Balgowan, yr Alban.

Fiona Davies a Paul Jones, y ddau o Gwmann, wedi eu priodas yng Ngwesty Tyglyn Aeron ddydd Sadwrn Rhagfyr 29ain

Clonc - Papur y newyddion da...

Aelodau Clwb Llanwenog â'r cwpan am ennill y pwyntiau uchaf yn y Cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg a gynhaliwyd yn Felinfach yn ddiweddar.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

LAS
Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion, SA48 8LT

Agoriad Swyddogol Ysgol Ffynnonbedr. Dadorchuddiwyd y plac gan Y Cyng. Keith Evans, Arweinydd y Cyngor. Yn y llun (o'r chwith) mae Mark Williams AS; Bronwen Morgan, Prif Weithredwr; Huw Jenkins, Prifathro; Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg; Y Cyng. Fred Williams, Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion; Y Cyng. Keith Evans; Y Cyng. R E Thomas, Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Addysg, Diwylliant a Hamdden; Y Cyng. Hag Harries a'r Cyng. Ifor Williams, aelodau lleol; Andrew Morgan, Cadeirydd y Llywodraethwyr; y maer a'r faeres, Y Cyng. a Mrs. Chris Thomas

Rhai o griw y plygu - y gwirfoddolwyr a ddaeth ynghyd i blygu rhifyn 258 Clonc yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan.

Pwy yw pwy?

Golygydd:		
Chwefror a Mawrth	Elaine Davies, Penynant, Alltyblaca	480526
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan	
Gohebwyr Lleol:		
Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270
Bwrdd Busnes:		
Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llambed	422880

Beth yw beth?

Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Wyn, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llanbed	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573
Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:		
Megan Jones	23 Stryd Fawr, Llambed	423410
Guto Jones	36-38, Pendre, Aberteifi	01239 621828

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC: www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar ddisg neu CD, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

Siprys

Blwyddyn Newydd

Wedi cyfnod o segurdod mae'n anodd ailgydio yn y gwaith, ond gan fod yna ddeg mis, gobeithio, o chwilio am ddeunydd i lanw'r cwdyn o 'Siprys', gwell bwrw ati. O ie, 'Dymuniadau da' i bob un ohonoch. Cawsom ddechreuad digon gwlyb i'r flwyddyn gyda chyfaill i mi am alw un archfarchnad yn y dre yn Arch-Noa. Do, fe welais i ddau gi wedi'u clymu tu allan i ddrws yr archfarchnad, tybed oedden nhw'n disgwyl cael mynd i mewn! Newid am y gore! Trueni na fuasai hyn yn wir. O edrych yn ôl dros y newidiadau ym myd iechyd – a ydi pethau wedi gwella? Mae'n ysbytai mawr ni'n orlawn gan fod cymaint o ysbytai lleol wedi colli wardiau cyfan, a dim lle i gleifion gael gofal ychwanegol cyn mynd adref. Cymaint o gleifion yn galw ambiwlans i'w dwyn i'r ysbyty oherwydd yr amser sy'n mynd i ddisgwyl am feddyg i ddod o bellderoedd daear. Rwy'n methu'n lân a deall sut mae hyn i fod i wella gofal yn y gymuned i gleifion.

Ydi hyn yn deg?

Penawd tudalen flaen papur lleol gyda llun cyn-blismon oedd wedi colli'i swydd am iddo ymhel â chyffuriau, ac wedi cael gwaith mewn siop leol. I fi, cyfle sydd angen y fan yma i droi tudalen newydd. Ydi, mae'n bwysig i reolwyr y siop gael gwybod am ei orffennol, ond a oes angen i ni y cwsmeriaid gael gwybod?

Ceir Cefen Gwlad

Mae'r rhain wedi bod o gymorth amrhisiadwy i rai sydd heb drafnidiaeth, neu'n methu â gyrru. Bu'r rhain o fendith fawr i fynd â chleifion i ysbytai lleol. Do, fe welwyd yn dda am resymau arbennig, i roi stop ar hyn. Gwraig leol angen cludiant i gael triniaeth reolaidd mewn ysbyty leol. O ble tybed y daeth y car? O bentref uwchlaw Machynlleth! Does ryfedd nad oes digon o arian gennym yng Ngheredigion i gwrdd â'n holl ofynion.

Codiad Cyflog

Druan o'r Prif Weinidog, mae ganddo broblem anferthol ar ei ddwylo! Sut mae e'n mynd i gadw'r codiadau o fewn rheswm. Tra bod prisiau yn codi trwy'r amser, mae'n naturiol fod gweithwyr yn gofyn am ychwanegiadau i gwrdd â'r gofynion. Mae llawer o'r prisiau ar eu ffordd drwy'r to. Pris gwenith wedi dyblu – y sôn diweddara oedd y byddai peint o gwrw yn codi i £4.00. Pwy all fforddio hynny?. Beth yw'r ateb? Cael blwyddyn lle dyw prisiau ddim yn codi. Ie, efallai, ond dyna fe, breuddwyd arall.

Beth sydd mewn enw?

Wrth edrych drwy'r dair gyfrol o Place Names of Cardiganshire' gan Iwan Wmffre gweld sawl enw digon diddorol. Yn fy anwybodaeth `doedd y gair 'gabwd' fel yn Werngabwd (Penparc heddiw) yn golygu dim i fi. Deallais yn ôl yr awdur fod y tarddiant yn dod o'r gair 'Shiligabŵd' sef y planhigyn a dyfai ymhob gardd yn yr ardal sef 'Hen Ŵr'. Dyna fe, mae dyn yn dysgu rhywbeth o hyd.

Cloncyn

Dyddiadur

CHWEFROR

11-15 Wythnos Cystadleuaeth 'Hanner Awr o Adloniant' C.Ff.I. Ceredigion yn Theatr Felinfach am 7y.h.

11 'Lloffa ym myd enwau lleoedd' yng nghwmni'r Athro David Thorne am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.

16 Agoriad Swyddogol Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni – Amryw o weithgaredd a Te Parti i ddathlu.

19 Cyfarfod Rhwydwaith Cymunedol Y Teifi am 7.00y.h. yn Neuadd Gymunedol Eglwys Trinity Castell Newydd Emlyn.

22-24 Penwythnos Sganio Hen Luniau yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.

23 Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn trefnu rali genedlaethol "Rali Dathlu'r Gymraeg".

24 Cyngerdd yng Nghapel Llwynrhydowen, Rhydowen am 7:30y.h. Artistiaid: Vernon Maher, Doreen Lewis, Alun Wyn Dafis, Parti'r Gannwyll, Mike Davies, Teulu Cysgod y Pin, Lleisiau Bro Eirwyn a Chlwb Pontsian. Tocynnau ar werth gan Carol Rees 01545 590164.

28 Eisteddfod yr Urdd Cylch Llambed yn Neuadd yr Ysgol Gyfun.

29 Cawl a Chân yng Ngwesty'r Grannell, Llanwnnen am 7y.h. Adloniant gan blant yr ysgol a Chôr Lleisiau'r Werin. Llywydd: David Thomas, Trellwyn. Tocyn £6.

29 Dawns Dewis Swyddogion C.Ff.I. Ceredigion 2008/09.

MAWRTH

5 Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd yn Y Neuadd Fawr.

8 Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

14 Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd yn Ysgol Gyfun Penglais.

14 Ocsiwn Addewidion gan C.Ff.I. Pontsian yn Nhafarn Bach

20 Eisteddfod Papurau Bro yng Ngwesty Llanina, Llanarth.

23 Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes, Llanwnnen am 7y.h. Arweinydd Carys Griffiths a'r Organyddes Ceinwen Roach. Elw tuag at Bwyllgor Apêl Llanwenog a Llanwnnen Eisteddfod 2010.

26 Eisteddfod Capel-y-Groes, Llanwnnen.

28-29 Penwythnos Cymraeg C.Ff.I. Cymru yn Theatr Felinfach.

EBRILL

12 Cwmni Cudyll Coch, Llandeilo yn perfformio dwy gomedi yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers.

13 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân yng Nghapel Pantydefaid, Prengwyn.

27 Cymanfa Ganu yr Undodiaid yng Nghapel Bwlchyfadfa, Talgarreg am 2:00y.p. a 5:30y.h.

MAI

3 Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg am 2 o'r gloch. Rhaglenni gan Emyr ar 01545 590383 neu Janice ar 01545 598318.

10 Noson Elusen - Bwyd ac Adloniant -gyda Glan Davies a Paul Dazeley ym Mhabell Pantdefaid, Pontsian. Elw'r noson tuag at Ymchwil Cystic Fibrosis ac Ymchwil Cancr.

23 Noson Caws a Gwin yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 8y.h.

Drefach a Llanwenog

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Eilir Evans, Tandderi a Carol Davies, Cross-lane, Croeslan ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi eich dau i'r dyfodol.

Pen-blwydd arbennig

Yn ystod mis Rhagfyr dathlodd Dafydd Davies, Ger-y-nant ei ben-blwydd yn 40 oed. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod.

Babi

Llongyfarchiadau i Ann a Dafydd Davies, Ger-y-nant ar enedigaeth merch fach Megan Llwyd, chwaer fach i Hanna. Hefyd wyres i John a Gwenda Davies, Bwlchmawr, Brynteg ac Alan a Ceinwen Jenkins, Tyllwyd, Llambed.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Stanley a May Griffiths, Blaenpant ar ddod yn ddadcu a mamgu unwaith eto. Daeth mab bach o'r enw Richard James i Eirwyn a'i wraig Vicky yng Ngharreg Wen, ger Llechryd.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Menna a Meurig, Tŷ Clyd ar farwolaeth modryb, sef Mair Rowlands o Felinfach adeg y Nadolig.

Hefyd cydymdeimlir yr un mor ddwys gyda Jennifer, Tony a'r plant ym Murmur y Nant yn dilyn marwolaeth Huw [brawd Jennifer a oedd yn byw yng Nghastell Newydd Emlyn] ar ddydd Calan 2008.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Sioned Hatcher, Abernant ar basio arholiad theori piano gradd 2 gyda theilyngdod. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Diolch

Dymuna Gillian Lewis, Eirianfa ddiolch i'w chymdogion a ffrindiau am y cardiau, galwadau ffôn, blodau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn.

Cymorth Cristnogol

Diolch unwaith eto i Eglwys Llanwenog ac i Gapeli Brynhafod, Gorsgoch; Seion, Cwrtnewydd; Capel y Groes; Alltyblaca; Capel y Bryn; Capel y Cwm; Bethel, Drefach a Chapel Brynteg am eu cyfraniadau i Gymorth Cristnogol dros gyfnod y Nadolig. Daeth y cyfanswm eleni i £319-64, - swm anrhydeddus iawn. Diolch yn fawr i chi gyd.

Eglwys Santes Gwenog.

Cafwyd gwasnaethau Nadoligaidd hyfryd yn yr Eglwys, gyda phlant yr ysgol yn ein cynorthwyo. Diolch i Mrs Margaret Evans a'r athrawon eraill am eu hyfforddiant trwyadl i sicrhau perfformiadau graenus. Yn dilyn y gwasanaeth aeth pawb i'r ysgol i fwynhau lluniaeth a baratowyd gan Mrs Eleri Davies y gogyddes. Roedd Mrs Sian Davies y brifathrawes yn ymddeol o'i swydd ac fe gyflwynodd Cadeirydd y Llywodraethwyr, Mr James Thomas, anrheg o wydr hardd iddi. Derbyniodd dorch o flodau gan y disgyblion ieuengaf sef Chloe Marie Jones a Dafydd Lloyd, a derbyniodd Mr Ceri Davies rhodd oddi wrth Rhys Jones. Diolchwyd i Mrs Davies am ei gwaith di-flino a chydwybodol yn sicrhau safon uchel o ran ymddygiad ac addysg yn ystod ei gyrfa.

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Elizabeth Davies, Blaenllain, gynt, a fu farw o fewn dyddiau i'w phen-blwydd yn 90 oed. Bu'n gyfrifol am lanhau'r eglwys yn y chwedegau. Bu ei thad, y diweddar Mr James Davies, yn ofalwr a chlochydd yr Eglwys o'i blaen. Felly rhyngddynt, rhoddwyd blynyddoedd o wasanaeth i'r Eglwys.

Cydymdeimlwn hefyd â Glynis a Nigel Morris, Cae Ceffylau, ar farwolaeth tad Glynis sef Mr Len Jones.

Ymunodd tair aelod o Eglwys Llanwnnen gyda Llanybydder a Llanwenog i ganu'r plygain yn Eglwys Sant Pedr, Llambed. Diolch i Mrs Elonwy Davies am ein hyfforddi ac i Margaret Griffiths ac Yvonne Davies (Côr Lleisiau'r Werin) am eu cefnogaeth.

Llongyfarchiadau i Mrs Eva Davies B.E.M. ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 85 oed. Dymunwn iechyd parhaol iddi hi a'i phriod Huw.

Cynhaliwyd gwasanaeth 'Conffirmasiwn' ar y 25ain o Ionawr yn Eglwys Sant Luc Llanllwni ym mhresenoldeb yr Esgob, y gwir Barchedig Carl Cooper. Derbyniwyd Mrs Viria Jones, Gellideg; Huw Morgan, Glasfan a Sion Griffiths, Blaenpant yn aelodau llawn i'r Eglwys.

Llongyfarchiadau i Stanley a May Griffiths, Blaenpant ar enedigaeth ŵyr bach, James, mab i Eurwyn a Victoria.

Dymunwn wellhad buan i Peter Davies, Derwendeg sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ei fraich yn ddiweddar ac hefyd i'w nai, Barrie Davies, a gafodd anffawd wrth chwarae rygbi. Cofiwn yn ein gweddïau am bawb sydd yn anhwylus, gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

Clwb 100 Mis Tachwedd.

Emyr Jones, Awelon £15, James Fillery (Prague) £10. Carys Jones, Awelon £5.

Mis Rhagfyr. Andrew Goodall £15. Karen Mellor £10. Ken Davies £5.

Bonws Nadolig £5 yr un i Chris Jones, Lilian Davies, Jonathon Goodall, a Jen Clive-Powell.

Cyfranwyd dwy siec o £40 yr un i Gymorth Cristnogol ac i Dŷ Hafan.

Sefydliad y Merched.

Ein llywydd am eleni yw Liz Tipping a Dennis Rickard yn ysgrifenyddes. Donna Joseph yw'r drysoryddes.

Ym mis Rhagfyr cawsom ein parti blynyddol. Bwyd Prydeinig oedd ar y fwydlen eleni, a chafwyd gwledd wedi'i baratoi gan rai o'r aelodau.

Ddechrau'r flwyddyn croesawodd y llywydd aelod newydd, ac yn dilyn hynny cafwyd anerchiad gan Stephen ac Emma Jones yn sôn am eu hanes gyda'r Fyddin Diriogaethol allan yn Irac gyda lluniau ar y gliniadur. Mae yna groeso i aelodau newydd ymuno â ni, ar yr ail nos Iau yn y mis, yn Neuadd y Pentref Drefach am hanner awr wedi saith.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth yr aelodau ynghyd i Gapel Brynteg ar gyfer cyfarfod mis Ionawr, a chroesawyd pawb yn gynnes gan Dilwen George y Cadeirydd, a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

Unwaith eto, dymunodd adferiad iechyd i Glyn Davies a da oedd clywed fod Eirlys Williams wedi dychwelyd adre o'r ysbyty. Braf oedd gweld Ray Davies gyda ni ar ôl ei salwch hithau. Dymunwyd yn dda i ddwy aelod a oedd newydd ddathlu eu pen-blwydd, sef Mrs Beaumont yn 89 ac Eva Davies yn 85. Trist oedd gorfod cydymdeimlo ag un o'r aelodau, sef Dai Davies, Llanfechan, wedi colli Siencyn ei frawd, a chydymdeimlodd yr holl aelodau ag ef.

Pleser y Cadeirydd oedd cael croesawu'r Parchedig Eileen Davies, Gwndwn Llanllwni i'n hannerch, a dewisodd roi ei hanes yn penderfynu mynd i waith offeiriadol yr Eglwys. Yn y flwyddyn 2000 cafodd ei hannog gan y Parch Delyth Bowen i ystyried yr alwad i'r Eglwys. Cyfweliadau di-ri, ond yn y diwedd clywed ei bod wedi ei derbyn i wneud y cwrs a daeth y diwrnod ymhen tair blynedd iddi gael ei hordeinio'n Ddiacon yn Eglwys Tŷ-Ddewi ar Sadwrn olaf Mehefin 2004.

Penderfynu wedyn mynd ymlaen am radd mewn Diwinyddiaeth a hynny yn golygu 3 blynedd eto o astudio. Mae'n edrych ymlaen yn awr at dderbyn ei gradd ym mis Mawrth eleni. Ar ben hynny wrth gwrs, mae Eileen wedi ei phenodi'n 'Ymgynghorydd Cefn Gwlad Esgobaeth Tŷ-Ddewi' sy'n cymryd llawer o'i hamser, ond mae'n falch gallu cynnig ychydig help i ffermwyr ar adegau anodd iddynt.

Diolchwyd i Eileen gan Rachel Davies, Afonog, a dymunodd yn dda iddi wrth wynebu'r dyfodol a mynd ymlaen â'i gwaith.

Symudwyd o'r Capel i'r Festri i gael te ac ychydig luniaeth, wedi ei baratoi gan wragedd Brynteg, a diolchwyd iddynt gan Beryl Lewin.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 13eg o Chwefror yng Nghapel-y-Groes, ac Eric Williams, y Fedw, Cwmann fydd yn ein diddori.

Clwb Ffermwyr Ifainc Llanwenog

Ers yr adroddiad ola' yn 'Clonc' 'nôl yng nghanol mis Tachwedd, mae Clwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog wedi bod mor brysur ag erioed. Mi wnaeth pawb ymlacio ar Dachwedd y 29ain wrth i Carol Rees ddod i gynnal noson 'reflexology'. Mi gafodd y clwb lwyddiant yng nghwis y Sir a gafodd ei gynnal ar Ragfyr y 3ydd. Cafodd pawb ddigon o gyfle i chwerthin, bŵian a hisian ar Ragfyr y 10fed wrth i ni fynd i wylio Pantomeim Felinfach, a braf iawn oedd gweld nifer o aelodau'r Clwb yn cymryd rhan yn y Panto. Mentrodd rhai aelodau dewr allan i'r oerfel i ganu carolau ac i godi £848 i noddi aelod o'r clwb, Lyn Jenkins, sy'n mynd i gerdded yn Periw i godi arian at Ymchwil Cancer. Codwyd £142, i'r Clwb y tro hwn, ar yr 20fed o Ragfyr wrth i ni gynnal 'Turkey Darts' yng Nghefnhafod. Diolch i bawb am eu haelioni.

Cafwyd hoe fach dros y Nadolig, a chyfle i ymarfer ar gyfer y cystadlaethau Siarad Cyhoeddus Saesneg a cafodd eu cynnal ar Ionawr y 7fed a'r 8fed. Mae'n amlwg fod yr holl ymarfer wedi talu wrth i Ffermwyr Ifanc Llanwenog gael llwyddiant mawr unwaith eto yn y gystadleuaeth. Dan 14, mi enillodd Nicola Miles y wobr am y cadeirydd gorau, ac mi ddaeth yn 2il fel darllenwraig. Daeth tîm Llanwenog sef Nicola, Sioned a Rhian yn gyntaf. Dan 16, cafodd Nicola fwy o lwyddiant wrth ddod yn gyntaf fel diolchydd; mi enillodd Elin Jones y wobr am y cadeirydd gorau ac mi ddaeth Luned Mair yn ail fel siaradwraig. Daeth tîm y dair yn gyntaf. Cafwyd mwy o lwyddiant dan 21 wrth i Enfys Hatcher ddod yn ail fel cadeirydd, a'r tîm, sef Enfys, Llyr, Heilin ac Arwel, yn drydydd. Daeth Helen Davies yn ail fel cadeirydd dan 26, ac mi ddaeth y tîm sef Helen, Rhian a Manon yn ail. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran, ac a wnaeth yn siŵr fod Llanwenog yn cipio'r wobr am y clwb â'r mwya' o bwyntiau yn y gystadleuaeth.

Buom yn holi Delor James, Cen Llwyd a Peter Jones yn dwll am bopeth o ddyfodol cefn gwlad i ai Rhydian ddylai fod wedi ennill yr 'X-Factor', ar Ionawr yr 21ain wrth i ni gynnal noson Seiat Holi. Cynhaliwyd cinio blynyddol y Clwb yng Ngwesty'r Feathers yn Aberaeron ar nos Sadwrn, Ionawr

y 27ain. Mi wnaeth pawb joio mas draw yn bwyta'r bwyd blasus, gwrando ar araith ddoniol y gŵr gwadd a dawnsio fel ffyliaid cyn diwedd y noson! Llongyfarchiadau i Llyr Davies a Luned Mair a gafodd eu henwi'n aelod hŷn ac aelod iau mwya' gweithgar y Clwb yn y cinio. A chyn dod i ben am fis arall, hoffai pawb yng Nghlwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog ddymuno pen-blwydd hapus iawn i Huw Evans, Alltgoch, sy'n rhoi cymaint o gymorth i'r clwb, a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ystod y mis.

Ysgol Llanwenog

Bu diwedd y tymor diwethaf yn un prysur iawn gyda llawer o weithgareddau cyffrous ac amrywiol.

Treuliodd Steffan Evans, Rhys Jones a Dyfan Unsworth, bechgyn Blwyddyn 6, ddiwrnod yng Nghlwb Rygbi Llambed, fel rhan o weithdy 'Bois yn Barddoni' yng nghwmni'r Prifardd Ceri Wyn Jones. Roedd yn brofiad bythgofiadwy ac mae'r tri wedi elwa yn fawr o arbenigedd y bardd yma. Mae'n debyg y cawn gyfle i ddarllen y cyfansoddiadau maes o law!

Ac ar ddiwrnod arall cawsom y fraint o groesawu y Prifardd Iwan Llwyd i'r ysgol ynghyd â disgyblion a Staff Ysgol Cribyn. Ysgogodd y bardd y disgyblion hyn i ysgrifennu'n greadigol am eu bro ac roedd y gwaith gorffenedig i'w ganmol yn fawr.

Derbyniodd yr ysgol wahoddiad i gynnal adloniant gan drigolion Cartref yr Annedd yn Llanybydder yn ystod eu Noson Goffi. Rydym bob amser yn mwynhau cael y cyfle i sgwrsio gyda'r bobl yma, ac yn gwerthfawrogi eu gwahoddiad caredig. Braf hefyd oedd cael mynd i ganu i Gartref Maesyfelin eto a diolch iddynt hwythau am eu croeso arferol.

Gwasanaeth o garolau a darlleniadau a gafwyd gan y plant eleni yn Eglwys Llanwenog, ac yn ôl eu harfer, fe wnaeth pawb eu rhan gyda graen. Ac i ddilyn brasgamodd pawb i fyny i'r ysgol er mwyn bod yn rhan o achlysur arbennig, sef parti ymddeoliad ein Prifathrawes, Mrs Siân Davies.

Roedd yr ysgol yn orlawn a'r byrddau yn llawn o ddanteithion a baratowyd yn fedrus iawn gan ein Cogyddes Ms. Eleri Davies gyda help rhai o famau'r ysgol. Paratowyd dwy gacen arbennig gan Mr. Gareth Richards a'n Cogyddes. Diolchodd Mrs. Margaret Evans, Athrawes a Mr. James Thomas, Cadeirydd y Llywodraethwyr yn gynnes iawn i Mrs. Davies am ei gwasanaeth diflino i'r ysgol a'r gymuned gyfan, yn ystod y deuddeg mlynedd diwethaf. Cyflwynwyd anrheg a basgedaid o flodau iddi gan ddau ddisgybl ieuengaf yr ysgol, sef Chloe Marie Jones a Dafydd Lloyd. Derbyniodd Mr. Ceri Davies hefyd rodd am ei gefnogaeth barhaus i'r ysgol gan Rhys Jones, disgybl hynaf yr ysgol.

Ac i goroni'r dathlu, cyflwynodd Mr. James Thomas dysteb anrhydeddus i'r Brifathrawes, ar ran y rhieni, y staff a'r ardal gyfan mewn cinio i'r staff a'r llywodraethwyr yng Nghwesty'r Grannell. Diolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at y ddwy noson yma.

Fel staff, rhieni, plant a llywodraethwyr yr ysgol carwn fanteisio ar y cyfle drwy ein papur bro i ddymuno pob iechyd a blynyddoedd o hapusrwydd i Mrs. Siân Davies ar achlysur ei hymddeoliad, gan ddiolch o galon iddi am bopeth a wnaeth ar ran Ysgol Llanwenog.

Fe ddaeth y flwyddyn newydd ag un disgybl a phrifathrawes newydd i'r ysgol! Croeso arbennig i Molly Greenfield, chwaer fach George, sydd yn ymgartrefu'n arbennig o dda yn yr ysgol.

Estynnwn groeso twymgalon hefyd i Miss Heddwen Davies a fydd yn arwain yr ysgol o hyn ymlaen. Nid yw Miss Davies yn ddieithr i'r ardal, gan iddi dreulio cyfnod o chwe mlynedd yn dysgu yn Ysgol Cwrtnewydd, cyn camu ymlaen i fod yn Bennaeth ar Ysgol Penlôn, yn Llwyncelyn. Ond ar hyn o bryd, roedd hi'n darlithio yng Ngholeg y Drindod yng Nghaerfyrddin ac yn fawr iawn ei pharch. Ein gobaith ni felly, fel pawb sydd ynghlwm â'r ysgol, yw y bydd ei chyfnod hi hefyd yn Llanwenog yn un hapus a chofiadwy.

Rydym yn ffodus y tymor yma eto i dderbyn gwasanaeth dwy fyfyrwraig i Ddosbarth y Babanod. Fe fydd Miss Megan Evans, o Goleg y Drindod a Ms. Mair Jenkins, myfyrwraig Cam Wrth Gam, gyda ni hyd y Pasg a mawr hyderwn y bydd y ddwy yn hapus yn ein plith.

Fe fydd DVD pen wythnos y dathlu ar werth yn yr ysgol am £8.00. Cysyllter â Mrs. Enfys Morgan – 01570 480 382.

Yn yr ysbyty

Dymunir gwell iechyd i Mrs Mair Price, Hafod-y-Wennol ar ôl iddi dreulio ychydig ddyddiau mewn Ysbyty yng Nghaerfaddon.

Llwyddiant

Llongyfarchiadau i Carwyn Lewis, Gwarcoed Einon ar ennill y 3ydd wobr yn y Ffair Aeaf am ddangos eidon Du Cymreig. Llongyfarchiadau hefyd ar gael ei ddewis i fod yn 'Junior Judge' yn arwerthiant y Gwartheg Duon yn Nolgellau.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Mrs Siân Davies yn torri'r gacen ar achlysur ei hymddeoliad fel Prifathrawes yn Ysgol Llanwenog.

Cylch Meithrin Drefach

Pob lwc i Steffan Davies, Caitlin Gibbons, Steffan Holmes, Meirion Lloyd a Nia Morgans yn eu hysgolion cynradd lleol.

Dymuna yr athrawon a'r plant wellhad buan i Lleucu. Mae pawb yn gweld dy eisiau.

Diolch o galon i'r dair ysgol gynradd leol am y cynnig i ddefnyddio eu cyfleusterau allanol. Byddwn yn falch iawn i dderbyn y cynigion yn y dyfodol agos.

Ein thema y tymor yma yw tedis. Dyma lun o'r plant yn dod i'r ysgol yn eu gwisg nos a gyda'u tedis.

Cofiwch am ein noson Bingo yng Nghefn Hafod, Gorsgoch ar nos Wener, 22ain o Chwefror am 7:30y.h.

Y Radd Allanol Trwy Gyfrwng y Gymraeg

- Cwrs rhan amser
- Hyblyg – chi sy'n dewis cyflymder eich dysgu
- Darlithiau ar y Sadwrn yn Aberystwyth
- Rhai modiwlau trwy e-ddysgu
- Adeiladu at radd BA
- Dewis o bynciau:
  - Sgiliau Astudio – dysgu sut i ddysgu
  - Cymraeg
  - Hanes Cymru
  - Llydaweg a Gwyddeleg
  - Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu
  - Menter a Busnes
  - Gwleidyddiaeth Ryngwladol

Pwy all ddilyn y Radd Allanol?

- Unrhywun â diddordeb mewn dysgu ar lefel prifysgol trwy gyfrwng y Gymraeg
- Myfyrwyr sydd â dyfalbarhad, brwdfrydedd ac ymroddiad

Rhagor o wybodaeth

Cydgysylltydd y Radd Allanol,
Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes,
Prifysgol Cymru Aberystwyth,
Aberystwyth SY23 2AX

graddallanol@aber.ac.uk
01970-621678

http://www.aber.ac.uk/sell/courses/welsh/extdgree/index-cymraeg.html

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Cwmann

Sefydliad y Merched

Ar nos Lun Rhagfyr 3ydd croesawodd ein llywydd Gwen aelod newydd sef Veronica James atom, a braf oedd gweld Glesni nôl yn ein plith ar ôl ei llawdriniaeth. Diolchodd hefyd i'r tîm am gystadlu yng nghwis y Ffermwyr Ifanc. Braf oedd cael aelodau o sefydliadau Pumpsaint a Llanybydder gyda ni i fwynhau noson yng nghwmni Nicola o siop Cascade, Llambed. Cafwyd pum trefniant blodau gwahanol ganddi ar thema'r Nadolig a chafwyd tipyn o hwyl wrth wrando arni yn addrodd am hwyl a helynt ei bywyd wrth baratoi at yr Ŵyl. Enillwyr lwcus y trefniant blodau oedd Gwyneth, Veronica, Lena, Barbara Shaw ac Irene Jones. Talwyd y diolchiadau gan Joyce, ac fe wnaeth pawb fwynhau 'punch a mins-pei' cyn mynd adref.

Sefydliad y Merched

Croesawodd Gwen ein llywydd ni i gyfarfod mis Ionawr drwy ddymuno 'Blwyddyn Newydd Dda' i bawb a llongyfarch Dilys am ennill gwobr yn Ffair Aeaf, Llanelwedd.

Daeth Stephanie Jacobs, Coedmor Fawr i ddangos ei chasgliad gwerthfawr o gwiltiau gwahanol. Dechreuodd Stephanie gael diddordeb mewn cwilitio pan yn ferch ifanc ond bu rhaid rhoi'r cyfan o'r neilltu tra'n magu teulu. Yn 2005 ail gydiodd y diddordeb a phenderfynodd gynnal dosbarthiadau dydd. Yn mis Tachwedd 2007 gofynnwyd iddi ddarlithio am hanes y cwilt yng Ngholeg Llanbed, ac mae'n dal i gynnal dosbarthiadau yn y Ganolfan, Cwmann. Diolchodd Bethan i Stephanie am noson ddiddorol, ac enillwyd y raffl gan Tegwen. Lena a Bethan oedd yng ngofal y te.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad mwyaf dwys â Mrs. Elma Phillips, Llysgwyn, Cellan ac Emyr, Aled a'u teuluoedd ar golli priod a thad annwyl, sef Mr Goronwy Phillips cyn- brifathro ysgol Coedmor am naw mlynedd ac aelod ffyddlon yng nghapel Bethel Parcyrhos a chôr meibion Cwmann a'r cylch.

Cydymdeimlwn hefyd â Mrs Eirwen Davies, Ffawydd ar golli chwaer arall o fewn ychydig wythnosau i'w gilydd ac â Mrs Gwenni Douch a'r teulu ar golli chwaer, sef Mrs Betty Evans, caffi Newbridge (gynt).

Ysbyty

Da deall fod Rhian Jones, Hafod wedi dod adref ar ôl treulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty adeg y Nadolig. Gobeithio dy fod yn teimlo llawer yn well erbyn hyn.

Clwb 170

Enillwyr Rhagfyr

1. Mr Huw Davies, Verlands, Cwmann 2. Mr Michael Miah, Saya Villa, Cwmann 3. Mrs Shaw, Bryngwyn, Gorsgoch 4. Canon Wynzie Richards, Maesteify, Cwmann 5. Mr Larry Davies, Brynteify, Cwmann 6. Mr Rhydian Lloyd, Penybont, Pumsaint 7. Mr Dewi Davies, Dolfelin, Blaencaron 8. Mrs Marian Roberts, Cyswch, Cwmann 9. Mrs Karen Jones, Preswylfa, Cwmann 10. Hybarch Andy John, Ficerdy, Cwmann

Ennillwyr Ionawr

1. Jasmine Davies, Glenview, Pencarreg, 2. Mr Darren James, 15 Bro Llan, Llanwnnen, 3. Canon Wynzie Richards, Maesteify, Cwmann, 4. Mr Phillip Lodwick, Penrhyn, Cwmann, 5. Mrs Mary Jones, 41a High Street, Llambed, 6. Mr Aled Williams, Sarn Helen, Cwmann, 7. Mr Edwin Harries, 8 Nant y Llyn, Cwmann, 8. Miss Kelly James, 15 Bro Llan, Llanwnnen, 9. Mrs Shirley Notlam, 38 Bro Einon, Llanybydder, 10. Mrs. Eleri Davies, 13 Heol Hathren, Cwmann.

Clwb 225

1. Mrs Sallie Jones, Velindre Uchaf, Cwmann, 2. Mr Emyr Jones, Hollies, Heol y Gogledd, Llambed, 3. Mrs Iona Trevor Jones, Tŷ Nant, Cwmann, Llambed, 4. Mrs Anne Lewis, Hillside, Cwmann, Llambed, 5. Mrs Mair Powell, Penbryn, Cwmann, Llambed, 6. Mr & Mrs Sid Mason, Bryndolau, Pumpsaint, 7. Nan Thomas, Pantyrawel, Cellan, 8. Mr Eric Williams, Y Fedw, Cwmann, 9. Mrs.Gillian Mason, 4 Treherbert, Cwmann, 10. Mrs E Jones, 3 Heol Hathren, Cwmann.

Cymdeithas Bethel Parcyrhos

Braint yw cael cofnodi bod Cymdeithas Bethel yn mynd o nerth i nerth dan lywyddiaeth Gwen ac Eiddig Jones. Yn ein noson agoriadol, a lywyddwyd gan Gwen, cafwyd hanes taith dau o'r aelodau i Gyfandir De America ac yn arbennig i Batagonia. Cafwyd yr hanes mewn gair a llun gan Cyril ac Eric. Dechreuwyd y cyfarfod gydag Alun yn darllen darn o awdl y Cynhaeaf. Talwyd y diolchiadau gan David Thorne.

Ym mis Tachwedd ein gwr gwadd oedd Mr Dafydd Williams y Garn. Rhoddodd fraslun o'i waith fel parafeddyg, gan sôn am hanes yr ambiwlans a'r hofrennydd ambiwlans. Cafwyd noson ddiddorol o holi ac ateb am Gymorth Cyntaf a materion iechyd eraill. Talwyd y diolchiadau gan Eric. Penllanw tymor y Nadolig oedd noson o Hawl i Holi gyda phanel amrywiol iawn, sef Mrs Mair Jones, Hendai, Cynhgorydd Eirwyn Williams, Rhys Williams a'r dyn busnes Julian Evans. Llwyddodd y pedwr panelwr roi atebion diddorol a lliwgar. Cadwyd trefn ar y panelwyr yn urddasol gan ein llywydd, Gwen. Talwyd y diolchiadau gan Mrs Ann Lewis.

Taith Gerdded

Cyfarfu naw ar gyfer taith agoriadol Plwyf Pencarreg ar ddydd Sant Steffan. Y man cyfarfod oedd y garreg filltir yng Nghwmann lle gwelwyd y manylion canlynol. Caerfyrddin 21 Llambed 1. Cerddwyd lan tuag at Penlan ac ar y llwybr allan i Fwlchnewydd gwelwyd olion sawl tŷ, sef Mile End, Rhosfach, Bwlchffin, Parc-y-bedw, a gwelwyd Pont Penlan wedi ei glanhau ac ar ei newydd wedd. Tybed a oes gan unrhyw un syniad pa ddefnydd a wnaed o'r dŵr? Wrth groesi'r briffordd i Lanymddyfri cawsom ein harwain i weld a blasu coed sy'n dwyn ffrwyth Nadoligaidd y gneuen Ffrengig. Yna, mynd heibio hen chwareli Coedeiddig a Thalfrel ac yna cerdded y llwybr o Dalfrel i ben hewl Hendai gan weld rhagor o hen fythynnod fel Llwyn Ceirios. Cerdded ymlaen trwy glos fferm Hendai wedyn ac i fyny tuag at Llethrcoch a dyma ni wedi cyrraedd Cwm yr Afon Hathren. Mynd yn igam-ogam dros yr afon i fyny i Brynmawr ac at ffin dwy sir a thri phlwyf, sef Cellan, Llanycrwys a Phencarreg. Gwelsom fwy o hen dyddynnod wedyn, sef Tangraigwen a Llether Cenin sydd bellach ond yn dwmpath o gerrig. Wrth ddringo lan cawson olygfa ardderchog o Lambed a'r cyffiniau ac roeddem yn gallu gweld draw at Dŵr y Dderi yn Betws Bledrws. Yr unig anifail gwyllt i ni ei weld yn ei gynefin oedd un cadno ifanc a hyfryd oedd ei weld yn neidio'r cloddiau. Diolch i'r wraig a roddodd galennig cynnar traddodiadol i ni ar ein taith yn ôl i Gwmann. A diolch am gwmni hwylus ar ddiwrnod braf ym mis Rhagfyr 2007; gobeithio y bydd rhagor yn ymuno â ni yn 2008.

Diolch

Dymuna Harold Ty-Howell ddiolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei ben-blwydd yn 70 oed.

Ffermwyr Ifanc

Ar yr 28ain o fis Rhagfyr cynhaliwyd parti Nadolig y clwb yn Nhafarn Ffostrasol a chafwyd noson bleserus dros ben.

Yr wythnos ganlynol bu nifer o'r aelodau hŷn yn cefnogi dawns llysgenhades Ceredigion yn Undeb y Myfyrwyr Aberystwyth.

Yna ar yr 11eg o Ionawr cafwyd noson lle fuodd y merched yn barnu stoc ar fferm Cilerwisg, a bu'r bechgyn yn smwddio dillad, addurno cacennau ac yn gwisgo mygydau wyneb, o dan ofal Dylan a Louise.

Cynhaliwyd Seiat Holi ar y 18fed o dan ofal Mr Aled Evans, llywydd y clwb am y flwyddyn. Noson o safbwyntiau diddorol a straeon doniol!

Y dydd Sadwrn canlynol, bu nifer o'r aelodau oedran canol a hŷn yn cystadlu yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y sir. Daeth tîm Beca, Llion a Louise yn ail yn yr adran hŷn a dewiswyd Owain Jones i gynrychioli'r sir ar lefel Cymru, gyda Beca Hands a Louise Jones yn aelodau wrth gefn i'r tîm. Llongyfarchiadau mawr i bawb ar eu llwyddiant.

Yna, ar y 25ain teithiodd yr aelodau i Glwb Golff Penrhos, Llanrhystud i ymlacio yn y gampfa a'r pwll nofio. Noson fuddiol dros ben o dan drefniant Aled Evans.

Cwmsychpant

Cartref Newydd

Croeso cynnes i Emyr, Marian a Lleucu Rees i'w cartref newydd yng Nghaeronnen. Gobeithio y byddwch yn hapus yn eich cartref newydd.

Oedfa Nadolig

Cynhaliwyd oedfa ar fore Nadolig yng nghwmni ein gweinidog, Parch Wyn Thomas. Braf oedd gweld nifer o blant wedi dod. Yn gwasanaethu wrth yr organ oedd Mrs Eleri Jenkins.

Cydymdeimlo

Yn ystod y dyddiau cyn Nadolig bu farw Jenkin Davies o Lanybydder ond fel Shanco Tyngrug yr adnabyddwyd ef gan bawb gan mai un o fois Tyngrug Isaf oedd e pan yn blentyn. Cydymdeimlwn fel ardal â'i frawd Lewis ac Eifionwy yn Cilmeri ac â'r teulu oll yn eu galar o golli un a oedd mor ifanc.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Lleucu Rees, Caeronnen a fu yn ysbytai Glangwili a Chaerdydd ddechrau'r flwyddyn. Gobeithio dy fod lawer yn well erbyn hyn.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau gwresog i Meinir Davies, Caerwenog ar basio arholiad gradd 3 yn ddiweddar. Da iawn ti.

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus i Lilwen Davies, Brynawel wrth iddi ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed ddechrau mis Ionawr. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod!

Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Llanbedr Pont Steffan

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Aneurin Lloyd, 2 Brynsteffan ei ben-blwydd yn 80 oed ar ddydd San Steffan. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod.

Gwellhad Buan

Yn ystod mis Rhagfyr fe gwympodd un o selogion hynaf Clonc a thorri ei chlun. Dymuniad pawb yw gweld Miss Hannah Jones, 3 Ffynnonbedr nôl eto ar yr aelwyd yn dilyn ei arhosiad yn ysbyty Glangwili.

Priodas

Ddiwedd y flwyddyn priododd Marc Evans, Hyfrydle, Heol Maestir ag Elin yn Ninbych. Gobeithio i chi fwynhau'r diwrnod. Hir oes i chi eich dau.

Clecs o'r Coleg

Y Parchedig Eirian Wyn Lewis o Lanybydder fu'r gŵr gwadd mewn darlith gyhoeddus yn Adran y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan o dan nawdd Cymdeithas Dewi nos Fercher, 16 Ionawr 2008. 'Swyn y Paith' oedd ei destun a chyfareddwyd y gynulleidfa o bobl leol, staff a myfyrwyr gan y Gymru fach tu hwnt i'r tonnau. Esboniodd Eirian ei fod wedi ymddiddori yn y Wladfa ers dros ugain mlynedd ac wedi ymweld â hi bump o weithiau ers canol yr wythdegau. Ef bellach yw Llywydd Cymdeithas Cymru-Ariannin sydd yn hybu'r berthynas rhwng y ddwy wlad drwy drefnu a noddi teithiau cyfnewid i athrawon, myfyrwyr a gweinidogion.

I ategu'r hyn a oedd gan Eirian i'w ddweud daeth â llyfrau, lluniau a hyd yn oed poncho, ynghyd â rhoddion yr oedd wedi eu derbyn gan frodorion y Wladfa. Croeso cynnes a lletygarwch yr Archentwyr Cymraeg oedd prif fyrdwn neges Eirian ac er nad oedd y Wladfa yn llewyrchus ac yn dioddef o chwyddiant uchel, esboniodd ei bod yn gyrchfan bwysig i bob Cymro a Chymraes o hyd.

Nid gwrando'n oddefol oedd unig ran y gynulleidfa. Darlith ryngweithiol oedd hon ac un o uchafbwyntiau'r noswaith oedd yfed te mate. Dyma'r te a yfir beunydd beunos gan bobl y Wladfa ac, er nad oedd at ddant pawb— "fel cnoi baco," yn ôl un wraig—hawdd oedd deall ei apêl ymhlith pobl y paith yng ngwres llethol de America: gallai'r te hwn ddeffro'r meirw.

Y mae Eirian erbyn hyn yn fyfyriwr yn ei flwyddyn gyntaf yn yr adran ac yn cymryd rhan lawn yn ei gweithgareddau. Ond ychydig a wyddai'i gyd-fyfyrwyr tan yn ddiweddar ei fod wedi teithio cymaint a'i fod yn dal i drampan ledled y byd. Dros y Pasg eleni bydd yn ymweld ag Efrog Newydd lle y bydd yn pregethu mewn cymanfa fawr a lle y bydd yn ystod yr un wythnos yn siaradwr gwadd mewn cinio Gŵyl Ddewi a lle y bydd, mae'n siŵr, yn sôn am hud a lledrith Patagonia.

Am ragor o wybodaeth am Adran y Gymraeg ffoniwch Linda Jones (01570 424754) neu ewch ar y we: http://cymraeg.lamp.ac.uk

Cylch Cinio

Croesawyd y Bnr. Wieslau Gdula yn siaradwr gwadd y Cylch Cinio yn Ionawr. Yn dilyn cinio blasus, fe'i cyflwynwyd gan y Bnr. Twynog Davies, llywydd y noson. Cyfeiriodd at ei gysylltiadau teuluol â Gwlad Pwyl a Phalesteina, ac wrth gwrs â Chymru a'i gartref ger Llanbed. Wedi derbyn ei addysg yng Ngholeg Llanymddyfri datblygodd ei ddiddordebau mewn gwaith coed ac adeiladwaith a ddaeth yn alwedigaeth iddo. Bu'n byw a gweithio yn Llundain ymhlith ardaloedd eraill Prydain cyn derbyn galwadau i weithio ar draws y byd. Ei waith yn Lybia dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd testun ei sgwrs.

Cawsom ddarlun byw o wlad sy'n ddieithr iawn i lawer. Bu'n byw a gweithio am gyfnod yn Tripoli, ei phrif ddinas, sydd ar arfordir Môr y Canoldir. Dinas hynafol a dylanwadau'r Mwriaid yn amlwg ynghyd â'r rhai Eidalaidd yn deillio o'r cyfnod pan llywodaethwyd y wlad gan yr Eidal. Y mae'n ddinas swnllyd a budr, y trafnidiaeth yn symud yn ddidor, a'r marchnadoedd gwerthu yn lliwgar a phrysur. Yr oedd ei gasgliad o luniau trawiadol (o blith dros 1,000 ar Lybia) yn cyfoethogi ei ddisgrifiadau bywiog. Cyfeiriodd at ddylanwad mawr Cyrnol al-Gaddafi sy'n llywodraethu ers 1969 â darluniau ohono ar furiau $trefol ac mewn swyddfeydd a'i ddatblygiadau economaidd megis y pibellau anferth sy'n cario dŵr ar draws y wlad. Y mae'r grefydd Islamaidd yn rhan annatod o fywyd dyddiol ei thrigolion - addolir pum gwaith y dydd – ac mae ysmygu pibau yn arferiad cymdeithasol poblogaidd. Gwaherddir alcohol ac felly ni welir y meddwi a'r trais a geir yn ein dinasoedd ni, gan wneud eu dinasoedd yn dra diogel. Cyfeiriodd hefyd at rai o henebion y wlad megis prydferthwch Mosg Gurgi, y cartrefi tanddaraeol hynod ger Tripoli a dinas Rufeinig ryfeddol Leptis Magna sy'n cael ei datblygu yn gyrchfan bwysig i dwristiaid.

Gorffennodd ei sgwrs drwy sôn am ei waith ar hyn o bryd yn y Sahara yn datblygu swyddfeydd ar gyfer maes olew anferth - bydd ei waith yn Lybia'n parhau am beth amser eto! Y Bnr. Tim Jones, sy'n rhannu'r un diddordebau â'r siaradwr gwadd mewn ffotograffiaeth, a ddiolchodd ar ein rhan am noson hynod ddiddorol mewn gair a llun.

Robert a Mary Jones, Derwen Fawr, Ffordd Llanwnnen, Llanbed yn dathlu eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar. Priododd y ddau ar Ionawr 12fed 1948 yn Eglwys Brynford, Treffynnon. Bu Mr a Mrs Jones yn ffermio ym Mhenfforddlas, Sir Drefaldwyn o 1956 nes symud i ardal Llanwnnen yn 1978. Maen nhw wedi parhau i ffermio a chystadlu mewn nifer o sioeau gyda'u merlod a'u defaid gan ennill nifer fawr o wobrau ar hyd y blynyddoedd.

Daeth y noson i ben gyda chyflwyniad i'r Cylch Cinio o rodd cywrain gan y crefftwr coed amryddawn y Bnr. Ieuan Roberts. Cyflwynodd forthwyl a phlinth wedi eu cerfio ganddo o dresi aur mewn bocs hardd – bydd gan y Llywydd arf pwrpasol i gadw trefn o hyn ymlaen! (Llun uchod)

Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Iau 7ed Chwefror yng Ngwesty'r Falcondale (sylwer - nid yng Ngwesty'r Llew Du) a'r siaradwr gwadd fydd y Bnr. Huw Evans, Tregaron. Y mae croeso cynnes i bawb ac atgoffir yr aelodau i gofio ymddiheuro ymlaen llaw os na allant fod yn bresennol a gwneud hynny erbyn hanner dydd y diwrnod cyn y cyfarfod.

Diolch

Mae Rhian, Llyr a Guto Gerlan am ddiolch yn fawr iawn am yr holl gardiau y gwnaethon nhw eu derbyn adeg eu priodas a`r bedydd ddiwedd Rhagfyr. Mae`r teulu i gyd yn gwerthfawrogi yr holl gyfarchion cynnes a'r dymuniadau da.

Hefyd, dymuna Siân Davies, Talfan ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at y dysteb hael a dderbyniodd ar ei hymddeoliad yn Bennaeth Ysgol Llanwenog.

Roedd y cydweithrediad, y gefnogaeth a'r cyfeillgarwch a gafodd gan staff, plant, rhieni a'r gymdogaeth gyfan, wedi gwneud ei hamser yno yn un hapus iawn.

Hoffai ddanfon ei dymuniadau gorau at y Brifathrawes newydd ac i Ysgol Llanwenog yn y dyfodol.

www.clonc.co.uk
Gwefan Newydd
Papur Bro Clonc,
yn llawn lluniau a
gwybodaeth,
cyfle i chi gyfrannu,
a mwy i ddod:
sef cyn rifynnau Clonc.

Eisteddfod Papurau Bro
yn Llanina, Llanarth
Nos Iau 20fed Mawrth.
Dewch i gystadlu gyda Clonc.
Trefnir bws am ddim o'r ardal.
Bydd angen cystadleuwyr talentog
a chefnogwyr brwd!
Noson mas i bawb a llawer o hwyl.
Mwy o fanylion ar dudalen 19 neu
drwy ffonio 01570 422349

Llanbedr Pont Steffan

Cwpan Siambr Fasnach Llanbed am y Ffenest Siop Orau – trwy bleidlais y cyhoedd – yn cael ei gyflwyno i'r Sosban Fach. Yn y llun mae Caeirydd y Siambr Fasnach, Bethan Jones Lewis yn cyflwyo'r cwpan i Avril Evans a'i staff y tu allan i'r ffenest yn Stryd y Bont.

Cymdeithas Hanes Llambed

Croesawyd cynulleidfa luosog i gyfarfod mis Ionawr gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, a phleser oedd ganddo gyflwyno gŵr gwadd y noson, sef yr Athro Barry Burnham, darlithydd yn yr Adran Archaeoleg yn y Brifysgol yma yn Llambed.

Testun y siaradwr oedd 'Dolau Cothi – adolygiad o'r gwaith sydd wedi ei wneud yno dros 25 o flynyddoedd'.

Drwy gyfrwng lluniau, gwelwyd darganfyddiadau a wnaed gan yr Adran ers 1982 ar safle'r gweithfeydd aur, ac ar y Gaer Rufeinig a fyddai wedi llochesu 400-500 o filwyr ym Mhumsaint. Clywyd sut y daeth y Rhufeiniaid i'r rhan hon o'r wlad – tua 70 o flynyddoedd ar ôl eu glaniad cyntaf yn Ne-ddwyrain Lloegr, - a rheoli am ryw 70 mlynedd wedi hynny. Er eu bod wedi cilio o'r rhan hon erbyn 150 O.C., mae llawer o'u hôl i'w weld hyd at heddiw. Trwy lun o'r awyr, gwelwyd lle y codwyd y pynfeirch i ddod â'r dŵr o sawl cyfeiriad - ac ar sawl haen - er mwyn golchi'r hyn a gloddiwyd o'r ddaear. (Gwelwyd y tebygrwydd i weithfeydd yn Sbaen). Cliriwyd ehangder o'r graig i greu twnnelau tanddaearol hyd at ddyfnder o 40 troedfedd, ac mae'n amlwg i'r arbenigwyr fod yr ogofâu yma wedi bod yn safle o ddiwydiant aruthrol am gyfnod o 60-70 mlynedd yn y ddwy ganrif cyntaf O.C. Disgrifiwyd sut mae ôl dŵr dros amser yn creu tyllau yn y garreg- hynny eto i'w weld mewn gweithfeydd tramor. Esboniad hollol wahanol i chwedl carreg y 5 Sant !

Mae'n debyg fod yr aur a gloddiwyd ym Mhumsaint wedi ei gludo i Ffrainc a'i gymysgu â mwyn aur o'r wlad honno.

Daethpwyd o hyd i olion anheddau ar ochr ddeheuol yr afon, yn annibynol o safle'r Gaer Rhufeinig. Tybir mai yma y byddai'r bobl a fu'n cloddio'r mwyn aur yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif O.C. yn byw. Mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen, ac mae'r Archaeolegwyr yn dal i ryfeddu am eu darganfyddiadau; does dim dwywaith y byddant yn dal i wneud am amser i ddod.

Diolchodd y Cadeirydd yn gynnes i'r Athro Barry Burnham am hanes diddorol a thrylwyr.

Bydd y cyfarfod nesaf yn yr Hen Neuadd, nos Fawrth , Chwefror 19eg, pan fydd Yvonne Davies yn tramwyo 'Ochr arall y Stryd Fawr'. Croeso cynnes i bawb.

Merched Y Wawr

Cyfarfu cangen Llambed o Ferched Y Wawr ym Mwyty Tsieineaidd Ling Di Long Nos Lun, Ionawr 14eg. Wrth ein croesawu fe ddymunodd Eryl ein Llywydd, flwyddyn newydd dda i bawb; cyfeiriodd hefyd at unrhyw un a oedd wedi dioddef salwch ac estynnodd ddymuniadau da i Eric gŵr Mair a Dai gŵr Gwynfil a oedd wedi cael llaw driniaethau yn ddiweddar. Trist hefyd meddai, fod newyddion wedi ein cyrraedd am farwolaeth Goronwy Phillips, gŵr Elma ar ôl cystudd hir ac estynnodd gydymdeimlad ar ein rhan i Elma a'i theulu.

Cafwyd Pwyllgor Byr i drafod gweithgareddau sydd i'w cynnal yn ystod y misoedd nesaf. Cyn blasu'r bwyd Tsieineaidd fe wnaeth Julian y perchennog estyn croeso i ni a rhoi braslun o hanes cychwyn y fenter yma ac egluro ychydig am y gwahanol fwydydd. Cawsom amser diddorol iawn yn arbrofi'r gwahanol ddanteithion a oedd James a'r staff wedi eu paratoi ar ein cyfer. Diolchwyd iddynt am noson hyfryd gan Glenys Morris. Enillwyd y raffl gan Glesni. Fe fydd ein cyfarfod mis nesaf yn Festri Shiloh pan ddisgwylir Gwyneth Richards i son am ei gwaith ym myd Iechyd.

Croeso i Cen yn weinidog ar chwe chapel

Roedd penwythnos cyntaf' Chwefror yn benwythnos mawr i chwe chapel yr Undodiaid yn ardal wledig Llanbed.

Ddydd Sadwrn, fe ddechreuodd y Parch Cen Llwyd ar ei weinidogaeth lawn amser yn y chwech – Alltyblaca, Caeronnen, Capel y Groes, Ciliau Aeron, Cribyn a Rhydygwin – gan gymryd ei wasanaethau cyntaf' ddydd Sul.

Cyn hyn, roedd yn Rheolwr Lletya gyda Chymdeithas Tai Cantref ac yn cynnal gwasanaethau cyson yng nghapel Cribyn. Mae hefyd yn chwarae rhan flaenllaw yng ngwaith yr Undodiaid yng Nghymru.

Roedd yna groeso mawr i'w benderfyniad i dderbyn galwad ac fe fydd cyfarfodydd i'w groesawu yn cael eu cynnal ym mhob un o'r chwe chapel ar wahân, gyda gwahoddiad i gyfeillion o'r tu allan ymuno ym mha bynnag un sy'n gyfleus.

Ym mhob capel ond Cribyn, mae'n dilyn y Parch Goronwy Evans, Brondeifi, a hynny bron flwyddyn union ers ei ymddeoliad yntau.

Mae Cen yn byw yn Nhalgarreg gyda'i wraig Enfys – athrawes yn Ysgol Gynradd Llanwnnen - a'u dwy ferch Heledd 14 oed a Gwenllïan 11 oed. Bu mab Owain farw pan yn 4 mlwydd oed yn 1986.

Ers 1999 mae wedi cynrychioli ward Llandysiliogogo yn enw Plaid Cymru ar Gyngor Sir Ceredigion. Mae hefyd yn gyfrannwr cyson i'r eitem Dweud eich Dweud ar raglen foreol Post Cyntaf ar Radio Cymru.

Tan yn ddiweddar bu am bedair blynedd yn un o gyfranwyr i'r Golofn Gymraeg yn y papur wythnosol Tivy Side Advertiser.

"Bydd cyfle yn y weinidogaeth i ddatblygu ymchwil ysbrydol unigolion ac i roi egwyddorion crefyddol ar waith wrth gymryd rhan mewn gweithgarwch cymdeithasol a gwleidyddol a fydd gobeithio yn ceisio newid a chreu gwell amodau byw i bobl," meddai Cen.

"Mewn byd sydd yn barhaol newid mae Undodiaeth yn gwneud llawer o synnwyr gan roi'r cyfle i fod yn hyblyg a'r parodrwydd i fedru addasu.

"Wrth beidio â bod yn gaeth i ddogmâu a fformiwlâu crefyddol sy'n gosod cyfyngiadau a rhwystrau rhag symud ymlaen mae hyblygrwydd Undodiaeth yn medru creu pontydd dealltwriaeth yn ogystal â chreu cyfleoedd i gyd weithio."

Sarn Helen

Mae 2008 wedi dechrau yn arbennig o dda i aelodau Clwb Rhedeg Sarn Helen . Cafodd Jessica Leitch ei dewis i gynrychioli Cymru mewn ras Trawsgwlad yn yr Iwerddon. Cafodd Jessica ras arbennig iawn i orffen yn 25ain a'r ferch Gymreig gyntaf .

Ar ôl dychwelyd o Iwerddon mae wedi cael ei dewis i gynrychioli Cymru unwaith eto mewn hanner marathon ym Morocco.

Yr un pen wythnos aeth tri thîm o'r clwb i gymryd rhan mewn ras flynyddol yng Nghrymych. Cafodd tîm Sarn Helen ddiwrnod da iawn a dod yn gyntaf; aelodau'r tîm oedd Carwyn Thomas, Glyn Price, Mark Dunscombe, Richard Marks a Gethin Jenkins. Da iawn!

Ym mis Ebrill llynedd fe redodd Carwyn Thomas o Glwb Rhedeg Sarn Helen (3ydd o'r chwith) Farathon Llundain er mwyn codi arian at ward 'Paediatric South', Ysbyty'r Heath, Caerdydd, lle bu Llŷr Rees (tu blaen) yn derbyn triniaeth. Fe godwyd £3,753, a gyda'r arian prynwyd 8 sedd orffwys i rhieni i'w ddefnyddio ar y ward. Hefyd yn y llun mae staff y ward a rhieni Llŷr. Hoffai Carwyn a theulu Llŷr ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

Y ras nesaf y bydd Clwb Sarn Helen yn ei chynnal fydd y ras 10 milltir ar ddydd Sul y Pasg sy'n cynnwys Pencampwriaeth Cymru. Am ragor o fanylion, cysylltwch â 01570 481153.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar Nos Fercher Ionawr 23ain cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain.

Dynion – 1af – Mary Davies, Maes Newydd, Cwmsychpant 2il – Tom Davies, Penbryn, Llambed 3ydd – Ray Jenkins, Llanybydder Menywod – Cydradd 1af – Jenny Samuel, Tregaron Mari Evans, Llanwnnen a Ifan Jones, Aberarth. Sgor Isaf – Dynion – Dai Davies, Penshinrig, Cellan. Menywod – Cydradd rhwng – Beryl Roach, Felinfach a Ray Thomas, Stryd Newydd, Llambed. Bwrw Allan – Enillwyr – Gwendoline Jones, Llanybydder a Ray Thomas; Ail – Catherine Morgan, Llambed a Maggie Vaughan, Felinfach. Bydd yr Yrfa Chwist nesaf ar Chwerfror 20fed. Croeso cynnes i bawb.

Shiloh – Oedfa O Fawl

Bydd yna gyfle i glywed y canu o'r Oedfa o Fawl lwyddiannus a gynhaliwyd yng nghapel Shiloh, Llambed ar Orffennaf 1 2007, brynhawn Sul Chwefror 10 am 4.30 ar Ganiadaeth y Cysegr – Radio Cymru. Yr artistiaid oedd Plant yr Ysgol Sul, Côr Merched Corisma a Chôr Meibion Cwmann a'r Cylch. Twynog Davies oedd arweinydd y gân ac Eirwen Davies oedd yr organydd. Roedd elw'r noson yn mynd tuag at waith Cymorth Cristnogol yn SIERRA LEONE fel rhan o Apêl Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Ynghyd â chyfraniadau aelodau'r eglwys, da yw cael cyhoeddi fod y swm anrhydeddus o £134.00 wedi ei drosglwyddo i'r Apêl. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Diolch

Dymuna Beti, Bryncastell, Llambed ddiolch yn gynnes i bawb am y cardiau, blodau, anrhegion a'r galwadau ffôn yn ystod y cyfnod pan fu'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Llandochau, Caerdydd ac ar ôl dod adref. Gwerthfawrogir y cyfan yn fawr. Hoffai ddiolch hefyd am yr holl gyfarchion a'r anrhegion adeg ei phen-blwydd yn 70.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng ynghyd o eglwysi Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi i oedfa unedig deuluol yn Noddfa ar Sul, Ionawr 20. Croesawyd pawb yn gynnes gan Alun Williams a chymerwyd at y rhannau arweiniol gan Llinos Jones. Cyhoeddwyd yr emynau gan Alun, Hannah Timmis, Rhys ac Osian Jones. Thema'r oedfa oedd Goleuni a chyflwynodd ein Gweinidog y Parch Jill Tomos ei neges mewn ffordd gyffrous ond effeithiol iawn i'r plant gan ddangos y gwahaniaeth rhwng y tywyllwch a'r goleuni. Aethant allan i'r festri wedyn i gymeryd rhan mewn gweithgarwch yng ngofal Llinos tra bu'r oedolion yn gwrando ar bregeth afaelgar ac amserol gan ein Gweinidog. Gwasanaethwyd wrth yr organ gan Janet. Talodd y Gweinidog ddiolch haeddiannol i blant ac aelodau Noddfa am eu cyfraniadau cyfoethog i'r oedfa a thalodd deyrnged i Janet am ei threfniadau manwl.

Bu'r misoedd diwethaf yn gyfnod prysur yn hanes yr Ysgol Sul. Cynhaliwyd oedfa arbennig i ddathlu'r Nadolig gyda 26 o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn cynnwys cynrychiolaeth o eglwysi Bethel a Chaersalem. Cyflwynwyd drama'r geni gan yr aelodau iau a phawb ohonynt yn hardd yn eu gwisgoedd traddodiadol ac yn gwneud eu gwaith yn rhagorol. Hefyd cyfoethogwyd y gwasanaeth yn fawr gan ddatganiadau cerddorol amrywiol ac adroddiadau o safon uchel iawn a'r cyfan yn creu naws hyfryd yr Wyl. Casglwyd swm sylweddol a dymuniad y plant oedd cyflwyno cyfran helaeth o'r arian i Tŷ Hafan. Ddechrau'r flwyddyn bu criw o'r plant yn cyflwyno adloniant i breswylwyr Hafan Deg. Roedd y trigolion wrth eu bodd yn gwrando ar yr eitemau amrywiol ac wedi cael pleser pur yn eu cwmni ac yn ddiolchgar iawn iddynt am roi o'u hamser i'w diddanu. Dydd Sul 13 Ionawr cynhaliwyd Parti'r Ysgol Sul. Roedd y byrddau yn llawn danteithion blasus o bob math wedi eu paratoi gan y mamau a bu'r plant a'r oedolion yn mwynhau gwledd ardderchog. Dydd Sadwrn 10 Ionawr aeth nifer o'r plant a'u rhieni ac ambell i fam-gu hefyd ar ymweliad â'r Panto poblogaidd yn Theatr y Werin. Roedd y perfformiad yn un lliwgar, llawn sbort a sbri a'r actio, y canu a'r dawnsio o'r safon uchaf a'r cyfanwaith yn broffesiynol iawn. Roedd pawb wedi joio mas draw o'r ieuengaf i'r hynaf. Ar 20 Ionawr, bu Tomos Rhys, Osian a Hannah yn cyhoeddi emynau yn yr oedfa unedig gan wneud eu gwaith yn ardderchog. Yn dilyn seibiant dros y Nadolig mae'r Ysgol Sul wedi ail ddechrau a'r paratoadau ar y gweill ar gyfer gwasanaeth y Pasg a'r Gymanfa Ganu. Dymuna Janet ddatgan eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n gysylltiedig â'r Ysgol Sul am yr anrhegion a dderbyniodd gan ddiolch o waelod calon i'r plant a'r bobl ifanc am eu hymroddiad ac i'r rhieni am eu cymorth a'u cefnogaeth barod bob amser.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlir yn ddidwyll a phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y misoedd diwethaf.

Aelwyd yr Urdd

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos Fawrth 22 Ionawr. Atgoffodd Janet yr aelodau am y daith i Gaer ac Alton Towers ym mis Ebrill. Treuliwyd noson bleserus dros ben mewn sesiwn o ddawnsio gwerin dan gyfarwyddyd arbenigwraig yn y maes sef Liz Roberts o Lanarth. Roedd yr aelodau gan gynnwys y bechgyn wedi dysgu nifer o ddawnsfeydd a phawb wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn a chael llawer o hwyl. Diolchodd Lisa Moore i Liz am noson grêt a hefyd i Geinor Medi am gadw trefn! Mae yna raglen amrywiol wedi ei pharatoi ar gyfer y misoedd nesaf yn cynnwys eisteddfod ddwl sef un o uchafbwyntiau'r flwyddyn, gweithgareddau yn y ganolfan hamdden, helfa drysor a llawer mwy. Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 19 Chwefror sef noson ysgafn yng ngofal Sian Jones, Croesor, Cwmann.

Llwyddiant Academaidd.

Llongyfarchiadau i Meleri, merch Eric a Margaret Harries ac wyrres John a Beti Davies, Bryncastell a Doreen Harries, Heol Hathren Cwmann ar ennill gradd BSc gydag anrhydedd mewn Dylunio a Thechnoleg gyda statws athro cymwysiedig yng Ngholeg Casnewydd. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Cyngor i'r Henoed

Mae cyfle i'r Henoed alw yn Eglwys Sant Tomos bob bore dydd Mawrth o 10 tan 12 o'r gloch i dderbyn cyngor annibynnol yn rhad ac am ddim ar faterion amrywiol yn cynnwys pensiynau, lwfans gweini, lwfans gofalwr, effeithiolrwydd ynni, diogelwch personol a llawer mwy. Am fanylion pellach cysyllter â Chyngor Henoed Ceredigion ar 01239 615777

Mwynhau darllen Clonc?

Beth am ddarllen y cyhoeddiadau Cymraeg eraill:

GOLWG – Cylchgrawn Cymraeg Cenedlaethol wythnosol, a gynhyrchir yn Llambed, sydd yn y siopau bob dydd Iau. Ffoniwch: 01570 423529.

Y CYMRO – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol wythnosol sydd yn y siopau bob dydd Gwener. Ffoniwch: 01766 515514.

Y BYD – Papur Newydd Cymraeg Cenedlaethol dyddiol, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a fydd yn y siopau o'r 3ydd Mawrth 2008 ymlaen. Ffoniwch: 0871 230 0032.

YSGOL DDAWNS SALLY SAUNDERS

DYDD MERCHER - NEUADD CWMANN

4.00 - 4.45	Tapio Cynradd
4.45 - 5.30	Cyfoes Gradd 1 (1)
5.30 - 6.15	Tapio Gradd 1
6.15 - 7.00	Cyfoes Gradd 2

DYDD GWENER - YSGOL FFYNNONBEDR

4.00 - 4.45	*Little Movers*
4.45 - 5.30	Bale
5.30 - 6.15	Cyfoes Gradd 1 (2)

Ffôn: **01570 434571**
07817 615703
Sally Saunders AISTD
Bale, Tapio, Theatr Gyfoes a Chenedlaethol

Colofn yr Urdd Rhanbarth Ceredigion

Swyddog Datblygu – Anwen Eleri
anweneleri@urdd.org neu 01239 652150

Eisteddfod Ceredigion 2010

Ydi, mae 2010 yn agosáu erbyn hyn ac mae paratodau'r pwyllgorau wedi dechrau ers dros flwyddyn bellach. Mae'r nwyddau ar fin eu harchebu, felly gwyliwch mas yn yr Eisteddfodau Rhanbarth am stondin 2010! Erbyn hyn, mae pwyllgorau apêl wedi eu / ar fin cael eu sefydlu yn ardaloedd CLONC.

Dyma rai dyddiadau i'w cofio:

23 Mawrth – Cymanfa Ganu yng Nghapel y Groes, Llanwnnen; yr elw at Apêl Plwyfi Llanwnnen a Llanwenog.

18 Hydref - Cyngerdd Côrau Meibion Unedig Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid. Elw tuag at Bwyllgor Cerdd Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Pêl-rwyd Cylch Llambed

Bu 6 o dimoedd yn cystadlu yng nghystadleuaeth Pêl-rwyd yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llambed fore dydd Llun, 21ain o Ionawr. Roedd y safon yn uchel iawn. Llongyfarchiadau i Ysgol Carreg Hirfaen a wnaeth ennill y cylch a hefyd a ddaeth yn dydydd yn y gystadleuaeth rhanbarth ar ddechrau mis Chwefror yn Llangrannog.

Eisteddfodau'r Urdd

Mae tymor Eisteddfodau'r Urdd ar y gorwel unwaith eto. Cynhelir Eisteddfod Cylch Llambed [Cynradd] ddydd Iau, Chwefror 28ain yn Ysgol Gyfun Llambed am 1:30y.p. [Rhagbrofion yng Nghapel a Festri Brondeifi am 8:45y.b.] Bydd yr Eisteddfod Cylch [Uwchradd] ar brynhawn dydd Gwener, 29ain o Chwefror. Croeso cynnes i chi gyd.

Bydd yr Eisteddfod Rhanbarth Dawns ac Aelwydydd ddydd Mercher, 5ed o Fawrth yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth; yr Eisteddfod Rhanbarth Cynradd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ddydd Sadwrn, 8fed o Fawrth a'r Eisteddfod Rhanbarth Uwchradd ddydd Gwener, 14eg o Fawrth yn Ysgol Gyfun Penglais, Aberystwyth.

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Dymunwn groeso cynnes i aelod newydd o staff, sef Miss Jane Wyn, sy'n ymuno â'r Adran Saesneg.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Heledd Dafis ar enedigaeth Guto Wyn ac hefyd i Mr Dylan Jones ar enedigaeth Elen Non. Cafodd y ddau eu geni yr un diwrnod!

Croesawn hefyd Mrs Delyth Wilson i'n plith; fe fydd yn cyflenwi yn yr Adran Dechnoleg.

Gwelwyd prysurdeb a brwdfrydedd mawr ar ddechrau tymor newydd wrth i gapteiniaid a swyddogion Creuddyn, Dulas a Teifi ddechrau ar eu paratoadau ar gyfer Eisteddfod yr Ysgol a gynhelir ddechrau mis Chwefror. Pob hwyl i bawb gyda'r ymarferion.

Cynhaliwyd Noson Wobrwyo yn neuadd yr ysgol nos Iau, Rhagfyr 20fed. Bu'n noson ddymunol iawn a braf oedd croesawu cynifer o ddisgyblion a chyn-ddisgyblion, a'u rhieni i'r ysgol. Y gŵr gwadd oedd Y Parch Jeff Williams, Cyfarwyddwr Cymorth Cristnogol yng Nghymru. Clywsom araith ddifyr a ddiddorol ganddo a diolchwn iddo am gyflwyno'r tystysgrifau a'r gwobrau. Roedd yn bleser, hefyd croesawu Mr Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg y Sir a chyn–brifathro'r ysgol, a'i wraig yn ôl i'r ysgol, ac hefyd Maer a Maeres y dref Mr a Mrs Chris Thomas.

Yn ystod y noson cawsom glywed Adroddiad y Prifathro a bu ein prif swyddogion Siwan Davies ac Aled Thomas yn cyflwyno uchafbwyntiau'r flwyddyn. Cawsom ein hannerch hefyd gan y dirprwy brif swyddogion Angharad Lewis a Richard Milcoy. Diolchwn hefyd i Mrs Elaine Davies,Cadeirydd y Llywodraethwyr, am ei gwaith.

Cyflwynwyd gwobr goffa Zbignieff Dwanayeffski am y tro cyntaf eleni. Enillydd y wobr am y mabolgampwr / mabolgampwraig mwyaf addawol oedd Melanie Thomas o flwyddyn 11. Roedd Zbiginieff Dwanayeffski yn ddisgybl yn yr ysgol yn y pumdegau ac yr oedd yn disgleirio mewn chwaraeon o bob math – bocsio, athletau, ac yn enwedig rygbi. Roedd yn bleser ac yn fraint medru croesawu ei wraig Sophia, a'i ferch, Nicola i'r Noson Wobrwyo i gyflwyno'r wobr er cof amdano. Diolchwn hefyd iddynt am y siec hael i'r ysgol.

Cawsom ein diddanu gan nifer o ddisgyblion yn ystod y noson, a buont yn dangos eu doniau wrth berfformio eitemau cerddorol o safon uchel. Clywsom Michelle Morgan o flwyddyn 11 yn canu cân o'r sioe 'Jekyll and Hyde'.Bu Emily Johnston o flwyddyn 13 yn chwarae'r obo a bu Chris Ashton, Philip Chrich, Russell Pink, Aled Thomas a Rhydian Watkins yn canu fersiwn o'r 'Hen, hen hiraeth' gan Dafydd Iwan.

Bu'n noson lwyddiannus a chofiadwy a llongyfarchiadau i bawb a enillodd wobr. Diolchwn i bawb am eu cefnogaeth, ond yn arbennig i Mrs Dianne Evans am drefnu'r noson, staff y swyddfa, a Mrs Wenella Evans a Miss Mattie Evans am drefnu'r blodau hyfryd ac i Mr Michael Morris a'r bois yn y cefn am eu cymorth technegol.

Côr S.A.T.B Ceredigion - Ar benwythnos cyntaf Rhagfyr, bu'r disgyblion canlynol o flwyddyn 10-13, o dan arweiniad Mr Emyr Wynne Jones, yn derbyn hyfforddiant llais ac yn dysgu nifer o ganeuon. Buont wrthi tan 8 o'r gloch ar y nos Wener a thrwy'r dydd o 10 y bore tan 6 ar y nos Sul : Blwyddyn 13 Sam Harrison-Little, Blwyddyn 12 Russell Pink a Rhydian Watkins. Blwyddyn 11 Chris Ashton, Aled Davies, Wayne Jones ac Aled Wyn Thomas. Blwyddyn 10 Josh Harrison-Little, Darren Tierney, Ross Bartlett.

Côr T.B. Bechgyn Hŷn Ceredigion - Bu grŵp o fechgyn o flwyddyn 10-13 yn Neuadd Llwyncelyn ar Ragfyr 14eg.

Bu'r canlynol ar gwrs pen wythnos yn Llangrannog fel aelodau o Gerddorfa Ceredigion o nos Wener, Rhagfyr 14eg tan ddydd Llun, Rhagfyr 17eg. Buont yn brysur yn ymarfer un o symffoniau Borodin. Blwyddyn 13 Emily Johnston (Obo), Lowri Davies (Clarinet). Blwyddyn 11 Tomos Harries (Ffidil), Caroline Roberts (Ffidil).

Uchafbwynt y tri gweithgaredd yma oedd cyngerdd yn y Neuadd Fawr yn Aberystwyth ar ddydd Mawrth, Rhagfyr 18fed. Cafodd ysgolion y sir flas ar yr holl weithiau mewn perfformiad matinée yn y prynhawn a bu cyngerdd llawn y noson honno i'r rhieni a'r cyhoedd. Pleser oedd gweld disgyblion Llanbed yn ymroi wrth eu gwaith. Da iawn chi am roi eich amser prin i'r gweithgareddau yma.

Dyma aelodau Côr Ceredigion S.A.T.B.- Blwyddyn 10 Josh Harrison-Little, Hannah Biden, Megan Holt, Beth John, Samara Van Ryswyk, Carys Thomas, Lowri Pugh-Davies, Elliw Mair, Kay Hall, Lisa Davies, Callie Green, Samantha Daniels. Blwyddyn 11 Caroline Roberts, Nia Towner, Chris Ashton, Lottie Sparks, Sara Jones, Wendy Davies. Blwyddyn 12 Hedydd Davies, Elin Jones, Carys Thomas, Rhydian Watkins, Philip Chrich. Blwyddyn 13 Sam Harrison-Little.

Llongyfarchiadau i Melanie Thomas o flwyddyn 11 a fu ar gwrs hyfforddi pêl-droed yng Nghaerdydd o ddydd Gwener, Ionawr 18fed tan ddydd Sul, Ionawr 20fed, fel aelod o garfan Menywod Cymru dan 17. Chwaraeodd dros Gymru yn erbyn Awstralia a'r sgôr oedd 0-0.

Bu Libby Jones o flwyddyn 9 yn Moneteau ger Paris yn ddiweddar, yn cynrychioli Prydain mewn Pencampwriaeth Cleddyfaeth yn erbyn Ffrainc.Gwnaeth Libby yn arbennig o dda yn y gystadleuaeth, gan ddod yn 8fed allan o 46 o gystadleuwyr ac yn ail yn nhîm Merched Prydain dan 15.Ymfalchïwn yn ei llwyddiant.

Ddiwedd mis Ionawr aeth un deg chwech o ddisgyblion ar gwrs Cymraeg i ddysgwyr yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Yn ystod y tridiau cafwyd cyfle i sgïo, gwibgartio, merlota, nofio a beicio, yn ogystal â'r gwersi i wella eu sgiliau ieithyddol. Dychwelodd y disgyblion i'r ysgol wedi blino'n lân ond wedi joio mas draw! Diolch i Mrs Catryn Lloyd Williams am drefnu'r daith.

Dychwelodd y sgiwyr o'u taith sgïo i Zel am See yn Awstria. Cafwyd digonedd o eira a llawer o hwyl. Diolch i'r Adran Ymarfer Corff am drefnu'r daith.

Mae CLONC ar werth yn y siopau canlynol:

Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LSS, Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Vanilla Bay, Aberaeron
Siop Talgarreg
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Cwmann
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tu-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ysgol Ffynnonbedr

Yn ddiweddar bu rhai ohonom yn gysylltiedig â byd teledu. Bu Lowri Jones, Caryl Thomas a Sophie Jones yn ymddangos ar Ffeil yn siarad am ffônau symudol. Mae Lowri wedi cyrraedd y rownd derfynol yn y sioe dalent "Can you sing?" Edrychwn ymlaen hefyd at wahodd aelodau o dîm Planed Plant i'r ysgol yn y dyfodol agos. Fe gânt drafodaeth â'r plant ym Mlynyddoedd 5 a 6 a dangos darnau o raglenni newydd.

Llongyfarchwn y ddau dîm a aeth drwodd i ail rownd Cwis Llyfrau'r llyfrgell. Yn y tîm iaith gyntaf mae Meliss Davies, Carys Jones, Shannon Evans, Lowri Jones a Nancy Lagdon ac yn y tîm ail iaith mae Carie Ann Collom, Jake Carter, Kaydee Evans a Soren Luchte Thomas. Pob hwyl iddynt yn y rownd nesaf.

Llongyfarchwn hefyd ein tîmau gymnasteg a fu'n cystadlu'n ddiweddar yng Nghaerdydd mewn cystadleuaeth genedlaethol. Daeth un tîm yn drydydd yn eu hadran ond mae clod iddynt i gyd. Y cystadleuwyr oedd Red Gale, Catrin Davies, Jessie Dalton, Gwydion Kavanagh, Hazel Gale, Sabrina Lloyd-Bennett, Sasha Lloyd-Bennett, Jade Lloyd a Caitlin Page.

Mae'r prysurdeb wrth greu yr ardd wyllt yn parhau. Mae'r plant a'u rhieni wedi bod wrthi'n creu gwelyau ac yn plannu dros hanner cant o goed. Cyn hir bydd y Jac Codi Baw yn dechrau creu'r llyn. Edrychwn ymlaen at weld bywyd gwyllt yn ffynnu ar ein trothwy.

I gloi, cynhaliwyd Noson Ryngwladol yn yr ysgol yr wythnos hon i ddathlu'r ffaith bod pymtheg o wledydd yn cael eu cynrychioli a hanner cant o blant o dramor yn ddisgyblion.

Awgrymwyd i'r rhieni y gallent wneud cyflwyniadau a gwnaeth nifer ohonynt hynny mewn modd deniadol iawn ar y cyfrifiadur. Bu rhai o'r plant yn canu ac ar ôl yr holl fwrlwm aethpwyd ati i edrych ar arddangosfeydd pawb a blasu peth o'u cynnyrch. Roedd hi'n noson arbennig a thros gant a hanner yn bresennol.

Mae diolch yr ysgol yn fawr i'r staff a roddodd o'u hamser a'u hegni i sicrhau fod y gweithgareddau a nodwyd yn llwyddiannus.

Profedigaeth

Yn frawychus o sydyn ar y 18fed o Ionawr, bu farw Janet Cadman yn Ysbyty Frimley Park, Surrey. Priod Dai, a mam i Phillip ac Andrew Cutt, merch i'r diweddar Mr a Mrs Steele, The Dell, Llanybydder, a chwaer i Pam. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aldershot ddydd Llun, Ionawr 28ain, pan ddaeth nifer fawr o berthnasau a ffrindiau ynghyd, a thalwyd teyrnged i Jan gan Hazel ei merch-yng-nghyfraith.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at y teulu a'r cysylltiadau lleol

Llanfair Clydogau

Canu Carolau

Cafwyd dwy noswaith hwylus dros ben yn teithio o gwmpas y pentre'n canu carolau i ddathlu'r Nadolig. Ar y nos Lun bu tua pymtheg ohonom o gylch rhan fynyddig y pentref a chael croeso twymgalon ymhobman. Ar y nos Fercher canwyd o amgylch gwaelodion y pentref ac yn ystod y canu cysylltwyd â ni gan Geraint Lloyd o Radio Cymru er mwyn i ni ganu'n fyw ar ei raglen. Ar ôl iddo sgwrsio gydag Eleri Davies, Pentre fe ganwyd 'O Deuwch Ffyddloniaid' ac yn ôl pob sôn roedd y canu yn eithriadol o dda. Yna yn ôl i'r neuadd i gymdeithasu gyda glased o bwnsh arbennig wedi ei baratoi gan Eleri Pentre a chawl blasus iawn wedi ei baratoi gan Gwyneth Jones, Noyadd.

Diolch i bawb a gyfrannodd mor hael, a mae'r arian yn mynd, eleni eto, tuag at ail doi y neuadd. Diolch yn arbennig i Arwyn Davies, Pentre, Ian Evans, Esgairman a Ron Coombes, Penlanmedd am gludo pawb o amgylch.

Gwasanaeth Carolau yr Eglwys

Dathlwyd y Nadolig yn yr Eglwys yn y gwasanaeth carolau arferol gyda nifer o'r plwyf yn cymryd rhan a Paula Barker, Tycoch wrth yr organ. Roedd y gwasanaeth yng nghofal Y Parch David Greenwood.

Parti Nadolig y Plant

Trefnwyd parti Nadolig i blant y pentref gan Paula Barker ar ran S y M y dydd Iau ar ôl Nadolig. Siomedig oedd yr ymateb ond serch hynny cafodd yr hanner dwsin o blant a ddaeth amser da. Diolch i Linda am drefnu y gêmau, i Glennis am y miwsig ac i bawb a ddaeth â bwyd.

Nos Galan

Daeth grŵp niferus i'r neuadd i groesawu'r flwyddyn newydd gyda'r lle wedi ei addurno yn drawiadol â goleuadau lliwgar a choeden brydferth wedi ei rhoddi gan Arwyn Davies, Pentre. Da oedd gweld yno bobol o bob oedran, o 80 i blant ifanc. Cafwyd noson hwylus a digon o gyfeillgarwch a sbri gyda diolch i Glennis am ddarparu'r miwsig, i Linda am drefnu'r gêmau ac i bawb a helpodd mewn unrhyw ffordd.

Cinio Cyngor y Gymuned

Cafwyd noswaith o fwyd da a mwynhad pan fu'r pwyllgor allan am ginio yn y

Drovers Arms yn Ffarmers i ddathlu'r Nadolig.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Eiri Thomas, Y Felin, Heol Llanfair sydd wedi bod yn Ysbyty Glangwili ers rhai wythnosau cyn y Nadolig. Rydym yn meddwl amdanoch.

Cydymdeimlad

Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs. Myra Evans, gynt o Awelon , Heol Llanfair, gwraig y diweddar Rhys Evans, gynt o Fferm Maesisaf, Pencarreg. Roedd Mrs Evans wedi bod mewn cartref i'r henoed ger y Porth am flynyddoedd lawer cyn iddi farw. Cyn iddi ymddeol a symud i Lanfair roedd wedi dilyn gyrfa nyrsio .Yn ystod yr amser a dreuliodd yn Llanfair bu yn ffyddlon yn Eglwys Santes Fair ac yn warden yr eglwysyno. Roedd hefyd yn gefnogol i'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod Llanbed ac yn 'nabyddus drwy'r ardal.

Clwb Hanes

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y grŵp sydd am astudio hen hanes Llanfair.

Roedd y cyfarfod yng ngofal Laura Wood ac yn ystod y cyfarfod buodd llawer o sgwrsio am y ffordd ymlaen. Penderfynwyd cynnal arddangosfa yn y neuadd ar Awst 9fed i bara am wythnos. Os oes unrhyw un â rhywbeth i'w gyfrannu tuag at yr arddangosfa, cysylltwch â Laura ar 01570 493 215.

Dyddiadau mis Chwefror

Cofiwch am y canlynol: Chwefror 2il - Noswaith o gêmau ar Chwefror 15fed - Bingo

Clwb Clonc

Chwefror 2008

£25 rhif 186 :
Mrs Ray Harries,
Castle View, Llanllwni.
£20 rhif 132 :
Mrs Debbie Evans,
Dan-y-Wenallt,
Rhodfa Glynhebog, Llambed.
£15 rhif 27 :
Carwyn Davies,
Caerwenog, Cwmsychpant.
£10 rhif 22:
Hanna Davies,
Ger-y-nant, Drefach.
£10 rhif 217 :
Ieuan James,
Ael-y-Bryn, Heol Maestir,
Llambed.
£10 rhif 436:
Mrs Lena Williams,
39 Heol Hathren, Cwmann.

Cystadleuaeth Sticer Car CLONC

Diolch yn fawr i bawb am arddangos sticer car Clonc. Llongyfarchiadau i Dilwen Davies, Tegfan, Llangybi ar ennill £10 yn y rhifyn diwethaf.

Cwrtnewydd

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Eilir Williams, [Clyncoch gynt] a Catrin Richards, Hafan y Llan, Penrhiwllan ar ei dyweddïad ar ddydd Nadolig. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Eirlys Williams, Spring Gardens a fu mewn yn Ysbyty Glangwili am rai wythnosau.

Hefyd i Bryn Williams, Clyncoch ar ôl ei anffawd ddechrau mis Rhagfyr. Gobeithio dy fod erbyn hyn dipyn yn well.

Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Mrs Mary Harries, Gelli yn ystod mis Ionawr. Roedd yn wraig llawn bywyd ac yn un a oedd yn gefnogol i bopeth ym mhlwyf Llanwenog. Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'i phriod Dannie, ac â'r pedair merch a'u teuluoedd i gyd, yn ogystal â'i chwaer Getta a'i brawd Evan James a'u teuluoedd hwythau. Fe welir ei cholli ym mywyd pentref bach Cwrtnewydd.

Hedyd, cydymdeimlir yn ddwys â James, Morfydd a Helen Davies, Bwlch-y-berllan ar farwolaeth brawd ac ewythr sef Elgan Davies, Clyncoch, Gorsgoch.

Gwellad Buan

Dymunwn wellhad buan i Vernon Griffihs, Fferm y Cwrt sydd ar yn o bryd yn yr ysbyty. Gbeithio y byddwch yn well yn fuan.

Diolch

Dymuna Dannie Gelli a'r merched ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt ar golli priod, mam, mamgu a hen famgu annwyl.

Noson Fingo

Yn flynyddol bellach mae Pwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd yn cynnal Noson o Fingo er mwyn cwrdd â chostau cynnal y diwrnod Mabolgampau'n flynyddol. Cafwyd noson dra llwyddiannus yn y 'Red Lion' ddiwedd mis Ionawr pan ddaeth tyrfa luosog ynghyd i chwarae bingo o dan gyfarfwyddyd Gwyn a Val Jones o Felinfach. Bu rhai yn lwcus yn ennill a'r gweddill heb fod mor lwcus ond fe gafwyd noson hwylus a chymdeithasol dros ben. Diolchodd y Cadeirydd, Dewi Jones, i bawb am eu cefnogaeth i'r noson unwaith yn rhagor.

Clwb Ffrindiau Ysgol Cwrtnewydd

Mis Rhagfyr 2007
£20.00 Beca Jenkins, Hafan Y Cwm; £10.00 Owain Jones, Blaenhirbant; £5.00 Daniel Morgans, Glwydwern; £5.00 Alwena Williams, Hafod Y Gors, £2.50 Nanna Jones, Garth.

Mis Ionawr 2008

£10.00 Heiddwen Griffiths, Fronddu; £5.00 Gwenllian Llwyd Jones, Croesor; £2.50 Rhodri Hatcher, Abernant, £2.50 Sharon Long, Llys Alaw

Cellan

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn gyda Mrs Elma Phillips a'r bechgyn, Llys-gwyn ar farwolaeth priod, tad a thadcu annwyl iawn ym mherson Goronwy Phillips. Roedd wedi dioddef salwch hir ac fe estynnir iddynt ein cydymdeimlad llwyraf.

Capel Caeronnen

Yn ôl yr arfer, roedd naws hyfryd yng Ngwasanaeth Golau'r Gannwyll ar ddydd Sul ola'r flwyddyn. Croesawyd pawb yno gan y Parch. Cen Llwyd, ac ef a fu'n cyflwyno'r sawl fu'n cymryd rhan.

Darllenodd Rhian Armstrong ddarn pwrpasol ar gyfer adeg y flwyddyn. Swynwyd y gynulleidfa gan leisiau'r ddwy chwaer Heledd a Gwenllian Llwyd, gyda Miss Eirian Jones yn cyfeilio iddynt. A hudolwyd pawb gan ddawn Lowri Daniel a'i ffrind Robyn gyda'u heitemau cerddorol hwythau. Cafwyd cyflwyniad graenus gan Sabrina Jenkins ar y piano, ac fe ddangosodd Parti'r Gannwyll eu dawn gerddorol gydag eitemau tymhorol, a Carys Evans yn cyfeilio iddynt.

Bu Mrs Ceinwen Roach yn cyfoethogi'r naws gyda'i gwasanaeth wrth yr organ.

Diolchwyd i bob un gan y Parch. Cen Llwyd a chyn throi am adre, cafwyd glased o ddiod a danteithion wedi eu paratoi drwy haelioni teulu Nantgwyn.

Diolch yn fawr i bob un a ddaeth i gefnogi. Edrychwn ymlaen yn awr am gyfnod newydd yn hanes y Capel, pan fyddwn yn croesawu'r Parch Cen Llwyd atom yn weinidog llawn amser.

Alltyblaca

Trist oedd gweld Cartrefle yn cau ei ddrysau yn ystod yr Hydref.

Ar hyd y blynyddoedd bu'r ardal yn gefnogol iawn i bob ymdrech gan Gyfeillion Cartrefle i godi arian at y cartref.

Felly, penderfynodd y Cyfeillion mai da o beth fyddai gallu rhannu'r arian a oedd yn weddill yn y gronfa ymhlith elusennau lleol. Ac felly mewn noson Chwist yn Neuadd yr Eglwys, Llanybydder ar nos Fercher, Rhagfyr 19, cyflwynwyd tair siec gwerth £330 yr un i'r elusennau canlynol: Diabetes UK Cymru; Cancr UK Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Hoffai'r Cyfeillion ddiolch i bawb am eu haelioni a'u parodrwydd i gefnogi ar hyd y blynyddoedd.

Cadwyn Cyfrinachau

Dyma golofn newydd sbon, lle mae Clonc yn holi nifer o gwestiynau i bobl ifanc yn eu hugeiniau sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal. Os oes gennych chi gwestiwn diddorol i'w holi cysylltwch â'r golygydd - golygydd@clonc.co.uk Os y gwyddoch am berson ifanc a allai fod yn destun y golofn hon, cysylltwch yn yr un modd.

Enw: **Geinor Medi Jones**
Oed: 25
Pentref: Cwmann
Gwaith: Ymarferydd Hybu Iechyd
Partner: Jason Thomas
Teulu: Mam, Dad, Nia, Osian, Gu, Rymi a mwy!

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Cael 'row' gyda Gu am rhoi jam ar bwdin reis!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
Bod yn gwrtais.

Y CD a brynest di gyntaf erioed?
Dim yn cofio 100%, ond siwr a fod - Boyzone!

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pawb yn adnabod pawb.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pawb yn adnabod pawb!

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Bobl sydd yn ddau wynebog.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Pry cop.

Unrhyw ofergoelion?
Codi llaw ar bioden wrth weld un.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert?
Rhedeg ac yfed dŵr – ideally!

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rhedeg.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, swnllyd a swnllyd!

Beth yw dy hoff air?
'Hapi deis'.

A'th hoff adeilad?
Adeilad gyda lot o wydr a 'velux windows'!

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Pizza.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Newydd benu llyfr 'Getting rid of Mathew' a heb dechrau un arall eto!

Beth yw dy hoff arogl?
Basil ffres.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Taldra – bach yn dalach.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Arlunio.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Bananas.

Pa gerddoriaeth yr hoffet ti yn dy angladd?
Rhywbeth hapus.

Oes bywyd ar ôl marwolaeth?
Dim yn gwybod.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
Cwestiwn da – dim syniad, hoffi'r gwaith sy gyda fi!

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Dillad o rhyw fath fi'n siŵr!

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti ?
Teulu.

Y gwyliau gorau?
Gyda ffrindiau - Sgio (La Tania a Lake Tahoe),
Gyda Teulu – Disney World.

Arferion gwael?
Pigo spots!

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Dal ma gobeithio!

Testun cyfrinachau y rhifyn nesaf:
Gary Davies, Alltyblaca.

David a Kathryn Willcox, Blaeneinon, Cwmsychbant, Ceredigion, SA44 4QA.
Ffôn: 01570 480518 e –bost: davryn88@hotmail.com
Gareth a Nanna Ryder, Tyngrug-Ganol, Cwmsychbant, Ceredigion, SA40 9XH
Ffôn: 01570 480304 e –bost: ryder@tyngrug.fsnet.co.uk

Parthed: Diffyg Gwasanaeth Band-eang yng Nghwmsychbant

Annwyl Gymydog,

Efallai eich bod wedi darllen erthygl yn y wasg leol am ymgyrch AC lleol, Alun Davies, i ymestyn Band-eang i'r ardaloedd hynny o'i etholaeth sy'n parhau i fethu derbyn y gwasanaeth hwn. Wedi siarad gydag ef a'i swyddfa, fe gadarnhawyd bod angen i gynifer ohonom ag sy'n bosib naill ai ffonio neu e-bostio'i swyddfa i gadarnhau ein hangen am y gwasanaeth hwn. Bydd ei lais ef yn gryfach wrth ddelio gyda Telecom Prydeinig (BT) po fwyaf ohonom fydd yn ychwanegu ein henwau at y rhestr.

Wedi gwneud cais am Fand-eang ddwywaith a derbyn ateb, yn hollol anghywir, y byddem yn medru derbyn y gwasanaeth, dwedodd un peiriannydd ffôn oedd yn gweithio i BT bod angen cyfnewid 3 cilometr o weiren aliminiwm (gyda weiren gopr) rhwng Cwmsychbant a'r gyfnewidfa ffôn. Hyd nes y gwneir hyn does dim gobaith gennym derbyn y gwasanaeth.

Wrth i flynyddoedd dreiglo mae mwy a mwy o gyfleusterau yn ddibynnol ar Fand-eang yn y cartref ac ni fyddwn yn medru mwynhau'r buddiannau hyn os na fedrwn annog BT i wneud rhywbeth.

Mawr obeithiaf y medrwch gefnogi'r achos hwn a naill ai ffonio swyddfa Alun Davies ar 01267 238306 neu e-bostio, marktierney@wales.gov.uk

Diolch yn fawr a gobeithio y bydd llais undebol yn cael yr effaith angenrheidiol.

Cofion cynnes,
David, Kathryn, Gareth a Nanna

C.Ff.I Pontsiân yn cynnal

OCSIWN ADDEWIDION

Yn Nhafarn Bach, Pontsiân

Nos Wener, 14eg o Fawrth 2008 am 7.30 yh

Elw tuag at:- Cynnal Rali CFfI Ceredigion 2008

Y Lolfa,
Talybont, Ceredigion.
SY24 5AP.

Annwyl Olygydd

Mae'r gwaith wedi cychwyn ar roi trefn ar gyfeiriadur Dyddiaduron 2009 Y Lolfa. Mae'r cyfeiriadur wedi datblygu i fod yn ffynhonnell gynhwysfawr o wybodaeth am sefydliadau, cymdeithasau a busnesau Cymreig. Os ydych am i'r Lolfa gynnwys gwybodaeth am sefydliad newydd yn Nyddiadur 2009 neu os ydych am ddiweddaru neu gywiro gwybodaeth mae croeso i chi gysylltu â mi.

Mae gwerthiant blynyddol y dyddiaduron bellach wedi codi i 16,000 o gopïau, ac eleni, fel arfer, bydd cyfle i hysbysebu tu mewn ac ar glawr y dyddiaduron A5, A4 a phoced. Os am dderbyn taflen delerau cysylltwch drwy ddanfon e-bost i dafydd@ylolfa.com neu lythyr ataf yn Y Lolfa, Talybont, Ceredigion, SY24 5AP.

Yn gywir, *Dafydd Saer*

Hyd yn Hyn

Lansiwyd cyfrol newydd Gillian Elisa yn Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan ar ddiwedd mis Tachwedd, a dywed y Cyngor Llyfrau mai 'Hyd yn Hyn' oedd gwerthwr gorau mis Rhagfyr.

Yn fwyaf enwog am chwarae rhan Sabrina yn Pobol y Cwm a'r bondigrybwyll Mrs OTT, dros y blynyddoedd mae Gillian wedi cael rhannau mewn nifer fawr o gyfresi teledu, gan gynnwys Dinas, Minafon, Yr Heliwr, Glan Hafren, Iechyd Da a llawer mwy. Mae hi hefyd wedi cael cryn lwyddiant yn cyflwyno, yn canu ac yn actio ar lwyfannau yng Nghymru a thu hwnt.

Ond i ddarllenwyr Clonc, merch Nesta Mary a John Morgan Thomas (neu Twm Com), Merlin, Heol y Bryn yw Gillian a chwaer i Alun sy'n wyneb cyfarwydd i bawb yn Llambed.

Meddai Gillian, "Mae'n teimlo fel yr amser iawn i weud fy stori. Petawn i'n gadael fe'n hwyrach, fydden i 'di anghofio pethe! Dwi'n credu yn eich pumdegau 'da chi'n gallu edrych nôl, edrych mlân ac mae'n neis cael byw yn y presennol."

Gillian yn lansio ei chyfrol yn Ysgol Uwchradd Llanbed

Mae'r gyfrol, a ysgrifennodd Gillian gyda help ei ffrind y ddarlledwraig Siân Thomas, yn adrodd hanes ei hamser yn yr ysgol a'r coleg, ei diwrnod cynta' ar set Pobol y Cwm a llawer iawn o storïau difyr a doniol am fywyd ar ac oddi ar y llwyfan, i gyd yn steil a thafodiaith unigryw'r actores.

Ond nid chwerthin mo'r llyfr i gyd. Mae hefyd yn cyfeirio at adegau digon anodd yn ei bywyd. Cafodd bywyd Gillian ei newid am byth pan aeth ei mam yn sâl yn 1968, ac fe fu farw dwy flynedd yn ddiweddarach pan oedd Gillian yn 16 oed. A thra'r oedd ei gyrfa'n mynd o nerth i nerth yn y saithdegau a'r wythdegau, mae Gillian yn cyfaddef yn y llyfr nad oedd hi'n barod i ddelio gyda'i phrofedigaeth am flynyddoedd:

"Pan ddechreues i weithio'n broffesiynol, ro'n i'n byw mewn byd ffantasi, mewn ffordd, trwy'r amser. Do'n i byth yn licio gweld cynhyrchiad yn dod i ben; ro'dd rhaid wynebu'r byd go iawn wedyn. Ro'n i'n byw ar yr adrenalin. Y cyfan o'n i ishe neud o'dd mynd mas i yfed a danso!"

Ond yr hyn sy'n gwneud y llyfr yn werthfawr i ddarllenwyr Clonc yw'r holl sylw a rodda Gillian i drigolion y dref a'i ffrindiau. Mae hi hefyd yn adrodd ei hanes yn nyddiau ei hieuenctid. Ceir darlun byw o gyfnod y 60au a'r 70au yn y dref.

Cafodd Clonc ganiatâd gan Gillian i gyhoeddi detholiad o'r gyfrol. Diolch yn fawr iddi am hynny a llongyfarchiadau gwresog iddi am gyfrol ddiddorol iawn.

Ces fy nghodi yng Nghapel Soar, capel yr Annibynwyr. Dwi'n cofio Alun a'i ffrind, Owen Evans, yn cael row un tro yn y gymanfa ganu. Ma' hiwmor unigryw, a gweud y lleia, 'da Alun. Yn ystod y gwasanaeth, dyma'r gweinidog yn dechre mynd i 'hwyl' a gofyn, 'O ble mae'r golau'n dod?' Yna'r trydydd tro, gydag arddeliad, gan bwysleisio difrifoldeb y cwestiwn – 'Dywedwch wrtha i, o ble mae'r golau'n dod?' A medde Alun – 'Lamp!'

Gillian, Alun a'u rhieni wrth y garafan yng Ngheinewydd.

Bu Soar a'r ffrindie 'nes i yno yn ddylanwad mawr arna i, a ches gyfleoedd gwych yno hefyd. Dwi'n hynod ddiolchgar am hynny. Un o'r criw ffrindie o'dd Meinir Jones-Lewis, sy'n dal yn ffrind mawr i mi heddi. Ma' hi'n un o'r goreuon yn y bydd coluro erbyn hyn, ac wedi'n helpu i i greu nifer o gymeriade dros y blynyddoedd. Ma' Meinir wedi gweithio ar sawl ffilm fawr, ac yn cael galwade i weithio 'da nifer o sêr ar draws y byd. Nid yn unig ma' hi'n wych yn ei gwaith, ma' hi'n lot o sbort hefyd – r'yn ni'n chwerthin am yr un pethe.

Ar set Pobol y Cwm yn y 70au cynnar gyda Harriet Lewis a Glan Davies.

Ond nôl at y lle sbesial hwnnw – Llanbed! Ro'n i'n dwlu ar y ffair pan o'n i'n blentyn. Yr arogl i ddechre, yna'r sŵn a'r gerddoriaeth. Bob tro bydde'r ffair yn dod i Lanbed, ro'n i'n ecseitio'n lân wrth feddwl am y bumpers a'r waltzers, a'r bois cyhyrog 'da'r chewing gum a'r tatŵs erchyll ar eu breichie yn ein troi ni rownd a rownd ar y waltzers nes bo ni'n colli rheolaeth ar y sgrechen, a'r candi fflos yn sticio ar ein dwylo fel gliw. Ro'dd y gerddoriaeth yn mynnu bod yn uchel, a hynny reit o fla'n Capel Soar, o'dd fel hafan lwyd urddasol yng nghanol y gwallgofrwydd a'r môr o liwie llachar.

Pan o'n i tua naw oed, ro'n i wrth fy modd yn cael helpu Mr Jones Lla'th 'da'i rownd laeth. Ro'dd e'n cerdded o gwmpas y strydoedd 'da phram llaeth - rhyw fath o gert 'da olwynion tebyg i olwynion beic - a *crates* o laeth yn y pram. Yn y *crates* ro'dd rhai poteli chwarter peint a rhai hanner peint. Ro'dd cael rhoi'r poteli 'ma ar stepen drws pob tŷ yn fodd i fyw i fi; ro'n i'n dwlu cael ei helpu fe bob bore Sadwrn. Dwi ddim yn gwbod hyd heddi pam ro'n i'n mwynhau hyn cymaint! Yna ar ôl cwpla, fydden i'n cael chwe cheiniog am y gwaith. Dwi'n credu imi fynd ar ei nerfe fe yn y diwedd, achos mod i'n ei ddala fe 'nôl - ro'dd gen i goese byr, a do'n i ddim digon clou iddo fe.



Ces brofiade cynnar o berfformio yn Eisteddfodau'r Urdd hefyd yn blentyn – ro'n i'n aelod cyson o'r Urdd yn yr ardal. Miss Mari James a Mr Dan Williams o'dd yn gyfrifol am redeg pethe yn yr Urdd yn Llanbed, ac ro'n nhw'n dîm da. Mam Delyth Medi (cyn-aelod o grŵp Cwlwm) – Miss Williams i ni bryd 'ny – fydde'n chware'r piano. Rodd Miss James yn strict iawn 'da ni – do'dd hi ddim yn goddef nonsens o gwbwl gan neb – ond ro'dd hi'n cael canlyniade gwych odd' wrthon ni i gyd.

Ar ôl colli Mami, Dad o'dd yn gofalu - ar ei ben ei hun - am Alun a finne, a dwi'n siŵr ei bod hi'n anodd iddo fe weithie. Ma'n rhaid bo ni'n dipyn o lond llaw. Dwi'n cofio mynd i gaffi Conti's yn Llanbed bob amser cinio pan o'n i yn y Chweched Dosbarth, ond yn lle cael cinio iawn ro'n i'n bwyta siocled *Limmits* ac yfed *Horlicks* er mwyn colli pwyse, ac yn smocio No. 6 hefyd. Chware teg iddo fe, wedodd Len Conti ddim byd wrth Dad, er bo nhw'n ffrindie da. Ro'n i'n meddwl mod i mor *grown up*!

'HYD YN HYN' gan Gillian Elisa, Gwasg Gwynedd, £7.95.

Llanwnnen

Cyfarchion Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Eva Davies, Ornant ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 oed. Gobeithio ichi fwynhau'r dathlu.

Dyweddïad

Ar ddydd Calan cyhoeddwyd dyweddïad Caryl Hughes, merch Mr a Mrs Aeron Hughes, Cwmhendryd, Llanwnnen â Ben Herrick, mab y Parchedig Andy a Sarah Herrick, Y Ficerdy, Aberystwyth. Llongyfarchiadau i chi eich dau a phob bendith i'r dyfodol.

MBE

Daeth clod i'r ardal ar droad y flwyddyn newydd pan gyhoeddwyd bod Mr. Picton Jones wedi'i anrhydeddu gan y Frenhines gyda'r MBE, a hynny am ei wasanaeth clodwiw i'r diwydiant amaeth. Llongyfarchiadau mawr Picton!

Canmlwyddiant yr ysgol

Mae'r trefniadau creu llyfr y dathlu yn mynd yn eu blaen yn hwylus. Byddai'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn am luniau neu ddogfennau sy'n ymwneud â'r ysgol ac hefyd atgofion byr (tua 500 o eiriau) gan gyn-ddisgyblion.

Cysylltwch os gwelwch yn dda ag Alice Davies 01570 480 586 neu John Williams 01570 481 240

Diolch

Hoffai Eva Davies, Ornant, 10 Bro Cadarn diolch o waelod calon i'w pherthnasau, cymdogion, ffrindiau pell ac agos am yr anrhegion, blodau, llu o gardiau, galwadau ffôn ac i'r ymwelwyr ar adeg dathlu ei phen-blwydd yn wyth deg a phump yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Sefydliad y Merched, Llanwnnen

Croesawodd y Llywydd, Mrs. Gwen Davies yr aelodau i bwyllgor cyntaf y flwyddyn newydd gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Diweddglo'r flwyddyn ddiwethaf oedd y cinio blynyddol yng Ngwesty'r Grannell. Cyhoeddwyd enillydd cystadlaethau'r flwyddyn – ein Llywydd Gwen Davies gipiodd y marciau uchaf a hi fydd yn gyfrifol am y gystadleuaeth eleni. Hefyd ym mis Rhagfyr cafwyd arddangosfa goginio yng nghartre Mrs Averina Lewis. Mwynhawyd y noson hon yn fawr a chafwyd croeso a lluniaeth arbennig gan Mrs Lewis fel arfer ar ei haelwyd. Treuliwyd noson ddiddorol arall ddiwedd y flwyddyn yng nghwmni gwneuthurwr ffyn arbennig. Hyfryd oedd gwrando ar grefftwr dawnus yn sôn am ei waith ac adrodd ambell stori ddifyr am y cymeriadau a gwrddai yn sgil ei grefft.

Ym mis Ionawr fe'n swynwyd gan storïau di-ri Mr Pete Ebbsworth. Fe soniodd Pete am ei fagwraeth gynnar ym Mhontypridd ac am weledigaeth ei rieni di-Gymraeg yn ei anfon i ysgol Gymraeg y dref. Mawr oedd ei barch i'r gwahanol bobl a ddylanwadodd arno yn yr ysgol, y coleg ac yn ystod ei yrfa hyd at ei swydd bresennol yn Ysgol Gynradd Tregaron. Erbyn heddiw diddordeb Pete yw cadw defaid Llanwenog ac mae'n estyn cymorth i Glwb Ffermwyr Ifanc Llanwenog gyda gwahanol gystadlaethau. Dengys hyn bod y bachgen o dref Pontypridd wedi ymgartrefu'n llwyr yng nghefn gwlad Cymru.

Diolchodd Mrs Alice Davies i Mr Ebbsworth am noson ddiddorol iawn. Enillwyd cystadleuaeth y mis gan Mrs Ceinwen Roach.

Cynhelir y pwyllgor nesaf yng Ngwesty'r Grannell ar nos Lun 4ydd Chwefror.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Richard, Sue, Megan a Jac, Maes-yr-awel, Blaencwrt ar farwolaeth tad a thadcu sef Glan Evans, Llambed. Cydymdeimlwn yn ddwys â chwi fel teulu.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Dilwyn Thomas, Pantffynnon yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Deunaw Oed

Dathlodd Aled Thomas, Talgrwn ei ben-blwydd yn 18oed yn ystod mis Ionawr. Gobeithio fod y dathlu wedi mynd yn iawn. Pob lwc i'r dyfodol.

Wyr newydd

Llongyfarchiadau i Ronnie a Mair Davies, Pantronnen ar enedigaeth ŵyr bach newydd sef Guto Wyn, mab bach i Aled a'i wraig Heledd.

Cydymdeimlo

Gyda siom a thistwch y clywyd am farwolaeth Mrs Myfanwy Jones, Blaenwaun-ganol ar fore Gwener. Ionawr 25ain 2008. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau ers peth amser. Cydymdeimlir yn ddwys gyda'r plant Gwyneth, Gareth a Gethin a'u teuluoedd yn eu galar o golli mam a mamgu annwyl iawn iddynt.

Ysgol Llanwnnen

Aeth criw ohonom yn blant, rhieni a ffrindiau'r ysgol i Fryste'r pen wythnos cyntaf ym mis Rhagfyr. Dechreuwyd o Lanwnnen yn gynnar ar fore dydd Sadwrn, 1af o Ragfyr. Roedd hi'n fore digon gwlyb a dweud y lleiaf, ond roedd yna ddigon o chwerthin i gadw bawb yn effro ar y bws. Galwyd yn un o'r gorsafoedd am frecwast a chyrhaeddwyd Caerfaddon (Bath) tua 11:30y.b. Cafodd pawb brynhawn i siopa a gweld rhyfeddodau'r ddinas. Ar ôl teithio rhyw hanner awr wedyn yn y bws cyrhaeddwyd y gwesty ym Mryste lle roeddem yn sefyll y noson. Ar ôl cael dad-bacio a chael swper aeth pawb i Theatr yr Hippodrome i weld y Sioe Gerdd 'Mamma Mia', sef sioe yn seiliedig ar ABBA. Roedd hon yn sioe a hanner. Gwelwyd rhai o'n criw yn dawnsio erbyn y diwedd! Trannoeth cafodd pawb gyfle i fynd i Ganolfan Siopa Cribbs Causeway a rhai hefyd i fowlio deg ac i'r sinema. Galwyd nôl am swper er mwyn gorffen y pen wythnos yn Nhafarn y Glamorgan ym Mhontlliw. Diolchodd Mr Siôn Mason-Evans, y Pennaeth, i Nia Davies am drefnu penwythnos gwerth chweil ym Mryste ac i Graham Parry am yrru mor ddiogel. Rydym yn edrych ymlaen nawr at y trip nesaf y mae Miss Nia Davies yn ei drefnu sef pen wythnos yn Llundain ddechrau mis Mai i weld y sioe gerdd Joseff!!!

Ar nos Fercher, Rhagfyr 19eg cynhaliwyd Oedfa Garolau yng Nghapel y Groes dan arweiniad Manon Richards a Ceinwen Roach wrth yr organ. Disgyblion yr ysgol oedd yr artistiaid yn dehongli stori'r geni. Llywydd y noson oedd Mrs Gwyneth Davies, Llys Enwyn, Llanybydder. Cafwyd araith bwrpasol ganddi a rhodd sylweddol i'r ysgol a diolchwyd iddi gan y Pennaeth Mr Siôn Mason-Evans. Gwnaed elw sylweddol i goffrau'r ysgol.

Ar ddechrau'r tymor dechreuodd 4 o blant yn nosbarth y babanod sef Catrin Jones, Meirion Lloyd, Steffan Holmes a Cullen Mackay. Gobeithio eich bod chi gyd yn hapus yn eich ysgol newydd.

Brynhawn dydd Mawrth, Ionawr 15fed croesawyd Bardd Plant Cymru 2007-08 i Ysgol Llanwnnen sef Caryl Parry Jones. Cafwyd prynhawn arbennig yn ei chwmni a dyma'r gerdd a ysgrifennwyd ar y cyd rhwng y plant a Caryl:

Sion Mason-Evans, Prifathro Llanwnnen, Cerys Humphreys a Geinor Jones, swyddogion Cynllun Ysgolion Iach yn agor 'Llwybr Ffitrwydd'.

Penillion Plant Ysgol Llanwnnen gyda Bardd Plant Cymru 2007-08 - Caryl Parry Jones

Aeth Kate y Koala Cŵl
I siopa am bling i Lanbed
Fe brynodd goron a mini sgyrt
Cyn mynd i Conti's am baned.

Roedd Emma yr Eliffant Enwog
Yn enwog drwy'r byd i gyd
Fe ganodd yn Las Vegas
Gan gwrdd â Tom 'run pryd.

Mae Rhian y Rheino Rapllyd
Yn D.J. arbennig wir
Ei decs yw ei thraed crwn anferth
A'i meic yw ei chorn mawr hir.

Mae Ffion y Ffesant Ffwslyd
Yn ffysan bob munud o'r dydd
Yn cribo'r holl blu sydd arni
Hyd yn oed y rhai sy'n gudd.

Cymrodd Hanuman yr Hwyaden herciog
Foddion at ei wynegon,
A nawr mae'n chwarae ar y wing
'Da Ronaldo ym Manceinion.

Hannah yr Hyena Handi,
Plymyr gore'r byd
Yn rhoi peips yn y Serengeti
A nawr mae'n ddŵr i gyd!

Mae Ffion y Ffwlbart ffansi
Am briodi'r hen George Clonney
Ei chyn wŷr yw Gethin a Brad Pitt
A Beckham a Wayne Rooney.

Aeth Cerian y Crwban cloi
I'r Olymics i gystadlu
Fe wnaeth y sprint a'r marathon…
'Na biti iddi faglu.

Mae Ellen yr Epa Egwan
Yn dioddef yn y gwely
Does ganddi hi ddim nerth ar ôl.
Mae'n dda i ddim – 'na biti.

Mae Sophie y Seren Fôr sili
Yn glown o dan y don
Mewn syrcas dan y môr mawr mwyn
Mae'n cadw pawb yn llon.

Roedd Gareth y Gorila Gwyrdd
Yn wyrdd am reswm da,
Fe fwytodd ormod o frocoli
Cabej, pys a ffa.

Ryan yr Orang Utan rŵd
Yn dangos ei ben ôl
Sy'n goch fel hen domato
Yn sgleinio dan ei gôl.

Twm y Teigr Twp tawel
Bydd yn crafu nac yn rhuno
Dim ond cysgu, cwmpo, crwydro'r tir
Anghofio jôcs ac udo.

Bore dydd Llun, Ionawr 21ain aeth tim pêl-rwyd yr ysgol i Ganolfan Hamdden Llambed i chwarae yn erbyn ysgolion eraill y cylch. Cafodd y merched gêmau da iawn ond yn anffodus ni ddaethom i'r brig y tro yma!

Dymunwn fel ysgol longyfarch Mr Picton Jones ar gael ei anrhydeddu gyda'r MBE ddechrau'r flwyddyn. Mae Picton bob amser yn barod i helpu'r ysgol unrhyw amser.

Ryan Holes a Ffion Jenkins y ddau o ddisgyblion yr ysgol a fun llwyddianns iawn drwy ennill cystadleuaeth lliwio llun gan yr RNLI ym Mhwll Nofio Llambed yn ddiweddar.

Pentrebach

Gwellhad Buan

Da yw deall fod Eric Jones, Panteg dipyn yn well yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty yn Abertawe. Gobeithio y cewch iechyd gwell yn 2008.

Gorsgoch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Elgan Davies, Clyncoch a fu farw yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i dair o ferched y pentref ar eu llwyddiant mewn arholiadau piano yn ddiweddar, sef Sophie a Lauren Jones, Awel-y-gors ar basio gradd 3 gyda merit a Gwawr Hatcher, Cefn Hafod ar basio ei gradd 4 gyda merit. Dymuniadau gorau i chi eich tair ym myd cerddoriaeth!

Sioe Gorsgoch

Cynhaliwyd cinio blynyddol Sioe Gorsgoch a C.Ff.I Llanwenog nos Sadwrn y 1af o Ragfyr yng ngwesty Cefn Hafod. Cyflwynwyd yr arian a godwyd yn ystod sioe yr Haf i'r elusennau a ddewiswyd;- £2000 rhwng meddygfeydd Brynmeddyg Llanybydder; Llynyfran Llandysul, Teifi Llandysul a Taliesin Llambed.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Mineira a Gareth, Gorsgoch ar enedigaeth mab bach, Teifi yn ystod mis Ionawr. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Llangybi

Ysgol y Dderi



Mae'r ysgol wedi derbyn yr anrhydedd o gyrraedd gofynion y Marc Safon am y bedwaredd tro. Mae'r plant, yr athrawon, y rhieni a'r llywodraethwyr yn ymfalchïo yn llwyddiant yr ysgol.

Mae'r ysgol wedi derbyn yr ail dlws yn y gystadleuaeth Ysgolion Iach. Rydym yn gweithio'n galed nawr ar gyfer y lefel nesaf.

Croesawyd tîm rhaglen deledu S4C, 'Iii-ha' i'r ysgol i wneud gweithdai gyda phlant blynyddoedd 5 a 6. Cafwyd amser bendigedig yn eu cwmni.

Llongyfarchiadau gwresog i staff cynorthwyol y Cyfnod Sylfaen, sydd wedi derbyn cymhwyster NVQ3. Da iawn Miss Bethan John, Miss Fiona, Miss Helen a Mrs Jen. Mae clod mawr i Mrs Jen oherwydd ei bod wedi llwyddo i ennill y cymhwyster er gwaethaf y driniaeth deialasis y mae'n ei derbyn dair gwaith yr wythnos. Mae hi bob amser yn rhoi o'i gorau i blantos y Meithrin a'r Derbyn.

Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mrs Hayley, athrawes blwyddyn 2 sydd adref ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen i'ch gweld nôl yn ein plith.

Llongyfarchiadau mawr i'r tîm pêl-rwyd a ddaeth yn drydedd yng nghystadleuaeth cylch Llanbed yn ddiweddar. Yn y garfan roedd Kelly, Billie, Nia, Delyth, Tamsin, Nathan, Andrew, Ryan, Jack, Ceri, Ffion, Tierney a Rebecca. Da iawn chi blant!

Mae Miss Bethan Roberts (NNEB y Meithrin) yn cynnal sesiynau Iaith a Chwarae dan nawdd y Sgiliau Sylfaenol bob prynhawn Mercher yn neuadd yr ysgol o 1 tan 3. Croeso cynnes i chi ymuno â'n wiwerod bach prysur.

Er mwyn datblygu ac estyn profiadau'r plant, derbyniwyd gwahoddiad i ymuno mewn gweithgareddau a drefnir gan 'Confucius Institute' Prifysgol Llanbed. Croeso cynnes iawn i'n ffrindiau, Scot, Jin a Carol, sy'n cynnal gweithdai i groesawu'r flwyddyn newydd Cheineaidd. Mae'r plant wrth eu bodd yn eu cwmni.

Daeth Mr Bryn Evans, swyddog Campau'r Ddraig i gynnal noson o hwyl ar nos Lun Ionawr 28ain. Cafwyd noson hwylus dros ben.

Bro'r Dderi

Helo! Dros ŵyl y Nadolig bu'r aelodau o amgylch yr ardal yn canu carolau gan godi

arian tuag at achos da. Ddechrau'r flwyddyn aeth llond bws ohonon ni lawr i sglefrio ia yng Nghaerdydd - lot o sbort!

Bu dau dîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth siarad cyhoeddus dan 14 oed yn Felinfach yn ddiweddar. Daeth tîm A yn ail yn y gystadleuaeth a Charlotte Evans yn mynd ymlaen i fod yn rhan o dîm Ceredigion - llongyfarchiadau mawr iddi hi.

Cofiwch mae croeso i chi ymuno â ni yn Ysgol Y Dderi am 7.30 bob nos Iau.

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cydnabyddir cefnogaeth
BWRDD YR IAITH GYMRAEG
i'r cyhoeddiad hwn
Llinell Gyswllt:
0845 6076070
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
www.mentrau-iaith.com
Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

T. Emyr Jones
Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr,
Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas
a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING
Y gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer bob achlysur:
Priodas; Penblwydd; Bedydd; Angladd; Cinio Busnes; Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach
Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎01570 481230 📱 07967 559683

O San Steffan

gan Mark Williams AS

Yn gyntaf, hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd heddychlon a llewyrchus i bob un ohonoch.

Bu Rhagfyr yn fis prysur, ond yn un hapus, wrth i dymor y dathlu agosáu. Roeddwn wrth fy modd yn gwahodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig i Geredigion fel rhan o'n hymchwiliad ar globaleiddio. Cawsom dystiolaeth gan yr undebau ffermio, Shelter Cymru a Phrifysgol Llanbedr Pont Steffan. Mae'r tri maes canlynol o gonsyrn a phwysigrwydd enfawr i'r sir hon - sef cyflwr y sector ffermio a rôl yr archfarchnadoedd, yr argyfwng mewn tai fforddiadwy a swyddogaeth ganolog y sector addysg uwch ar ein heconomi lleol, a'r swyddogaeth gynyddol sydd ganddynt yn rhyngwladol.

Cefais siom ofnadwy wrth glywed bod Llywodraeth Llafur/Plaid Cymru y Cynulliad yng Nghaerdydd wedi penderfynu parhau gyda'i chynlluniau i uno Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion gydag ymddiriedolaethau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro, er gwaetha'r holl wrthwynebiadau ac amheuon a leisiwyd gan nifer o drigolion lleol, y Cyngor Iechyd Cymuned, y Cyngor Sir a nifer o aelodau unigol staff y GIG ledled Ceredigion. Nid yw'r gwersi a gafwyd trwy awdurdod iechyd Dyfed wedi cael eu dysgu meddai nifer o swyddogion iechyd hŷn, a bydd yr adnoddau'n diflannu o ardaloedd gwledig fel ein rhai ni i'r ardaloedd mwy prysur ochrau Caerfyrddin. Gobeithio fy mod yn anghywir, ond rwyf yn poeni am y dyfodol. Yr hyn nad oes gennyf unrhyw amheuaeth yn ei gylch yw gwaith ardderchog y staff – rhywbeth a oedd yn amlwg dros ben pan ymwelais ag ysbytai Tregaron, Aberteifi a Bronglais dros y Nadolig. Ni ddylai'r rhain gael eu siomi.

Ar nodyn ysgafnach, wrth i'r Senedd gau ei ddrysau am y Nadolig, cyhoeddodd Malcolm Wicks AS, y Gweinidog Ynni, na fyddai Bae Aberteifi'n cael ei gynnwys yn y trwyddedu cyfredol sy'n ymwneud â chwilio am nwy ac olew - llwyddiant syfrdanol. Cydnabu na allent sicrhau na fyddent yn niweidio poblogaeth y dolffiniaid trwynbwl. Mae'r ymgyrch *Save our Seas*, a arweiniwyd gan Leila Kirsch a'i thîm ymroddgar, wedi gweithio'n galed. Bûm yn eu cwmni am ychydig bythefnos yn ôl yn casglu mwy fyth o lofnodion, ac mae'r holl waith wedi talu ar ei ganfed. Pan euthum â chynrychiolaeth o bobl leol i gwrdd â'r Gweinidog, cawsom ein cyhuddo'n annheg o or-ddramateiddio, ond bellach mae ei swyddogion wedi derbyn ein hachos. Bydd rhaid i ni barhau i fod ar flaenau ein traed gyda'r mater hwn yn y dyfodol, ond mae'n newyddion ardderchog ar ddechrau 2008.

Cafodd trigolion Ceredigion newyddion ardderchog gyda chyhoeddiad Rhestr Anrhydedd Blwyddyn Newydd y Frenhines hefyd. Rwyf wedi adnabod ac wedi gweithio gyda phob un o'r rheiny a anrhydeddwyd - Cafodd Hugh Morgan o Autism Cymru, Mr Alan Morris o'r Borth, y Cynghorydd Goronwy Edwards o Benparcau a Picton Jones o Lanbedr Pont Steffan MBEs. Mae'r rhain yn bobl o ymroddiad ac maent wedi dangos ymrwymiad taer i'w cymuned. Llongyfarchiadau gwresog iddynt ar eu cydnabyddiaeth haeddiannol.

O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Mae sicrhau dyfodol ein gwasanaeth iechyd ni yng Ngheredigion wedi bod yn fater pwysig iawn imi ers y bygythiad i statws Ysbyty Bronglais rhyw flwyddyn a hanner yn ôl. Ro'n i felly'n falch iawn cael gwahodd y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, i Dregaron yn ddiweddar er mwyn cynnal cyfarfod gyda chynrychiolwyr y cymdeithasau sy'n ymwneud ag iechyd yng Ngheredigion. Roedd yn gyfarfod adeiladol iawn ac roeddwn yn falch dros ben clywed y Gweinidog yn datgan ei bod yn awyddus i gymeradwyo'r cynlluniau i fuddsoddi £33 miliwn mewn adnoddau newydd yn yr ysbyty.

Cyn y cyfarfod, cefais gyfle i ymweld ag Ysbyty Tregaron gyda'r Gweinidog er mwyn cael gweld y gofal da sydd ar gael yno a chymaint y mae'r cleifion yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth. Roeddwn felly'n falch bod y Gweinidog wedi datgan yn ystod y cyfarfod ei bod yn bwriadu sicrhau bod gwelyau yn y dyfodol yn Ysbyty Tregaron a'i bod am weld buddsoddi pellach yno. Mynegodd hefyd ei hymrwymiad i barhau gyda'r cynllun i adeiladu ysbyty newydd yn Aberteifi. Mae hyn yn newydd da tu hwnt a rhaid i ni barhau i ddatblygu'r cynlluniau yma er mwyn iddynt gael eu gwireddu cyn gynted â phosib.

Fe gadeiriais gyfarfod yn Llanbadarn Fawr yn ddiweddar er mwyn i drigolion lleol gael mynegi eu pryderon i gynrychiolwyr Network Rail am y mast telegyfathrebu fydd yn cael ei godi gerllaw'r rheilffordd ar gyrion y pentref. Mae cyfarfodydd tebyg eisoes wedi cael eu cynnal yn Llandre a Bow Street, ac rwy'n mawr obeithio y bydd Network Rail yn cymryd barn y bobl leol i ystyriaeth yn y cyfamser wrth iddynt orffen datblygu'r cynlluniau ar gyfer codi'r mastiau.

Bum mewn digwyddiad wedi ei drefnu gan Glwb Busnes Aberystwyth yn ddiweddar er mwyn codi arian tuag at Uned Clefyd y Siwgr er cof am y diweddar Ray Gravell. Cefais hefyd wahoddiad i siarad ag aelodau Prifysgol y Drydedd Oes yn ddiweddar yn Aberystwyth am fy ngwaith fel Aelod Cynulliad. Roedd yn bleser cael derbyn y gwahoddiad ac roedd gan yr aelodau ddiddordeb mawr cael gwybod sut mae'r Cynulliad yn gweithio.

Llanybydder

Diolch

Dymuna Wil, 2 Heol-y-Gaer ddiolch i 'Nyrs Ann' Wilson a'r criw am bob gofal yn ystod y flwyddyn a aeth heibio a hefyd i bawb ym Meddygfa Brynmeddyg; i Delyth, Helen a Carl, Jayne a Dai, y Warden a'i gyn-gymydog Byron Thomas, Yr Hafod, am eu cymwynasau lu. Ti wyddost beth ddywed fy nghalon. Diolch am ginio Nadolig gan Tristan a Iestyn. Felly, am bob dim diolchaf a phob bendith i'r dyfodol. Yn ddidwyll, Wil.

Cymdeithas Chwiorydd Aberduar

Daeth y chwiorydd ynghyd yn y festri brynhawn dydd Llun, 26ain o Dachwedd. Croesawodd y gweinidog Mrs Gill Tomos ein chwaer hynaws, sef Mrs Brenda Jones o Gwrtnewydd. Fe fuodd yn dweud hanesion ei gyrfa yng nghwmni'r plant yn yr ysgol. Cafwyd prynhawn hwylus yn ei chwmni. Gwnaethpwyd y diolchiadau gan ein gweinidog. Treuliodd y chwiorydd brynhawn Rhagfyr 3ydd yng Nghegin Gareth. Gwnaeth pawb fwynhau gweld Gareth yn gwneud danteithion at y Nadolig a dangos sut i osod blodau a gwneud addurniadau Nadoligaidd. Ar ôl gorffen cawsom flasu'r gwahanol fwydydd yr oedd e wedi eu paratoi. Gwnaethpwyd y diolchiadau gan Gill Tomos. Diolch hefyd i'r cynghorydd Ieuan Davies am ei gymwynas yn mynd â ni ar y bws. Fe fydd y Chwiorydd yn cwrdd ar Chwefror 25ain i wneud trefniadau ar gyfer yr Arwerthiant Blynyddol ar Fawrth 19eg am 7y.h. Agorir y noson gan un o blant yr eglwys sef Emlyn Evans, Dolydd.

Llanybydder

Merched y Wawr

Ar nos Lun 26 Tachwedd mi fu Merched Y Wawr Llanybydder yn ymweld â Chegin Gareth. Mi wnaeth pawb fwynhau'r noson yn gweld Gareth yn gwneud danteithion at yr ŵyl a hefyd yn dangos sut i osod blodau a gwneud addurniadau Nadoligaidd. Ar ôl dibennu yn y gegin cawsom flasu'r gwahanol fwydydd yr oedd e wedi eu paratoi. Elonwy wnaeth y diolchiadau i Gareth gan ei longyfarch am fod mor broffesiynol, a gan fod cymaint o bethau ymlaen ganddo dros yr ŵyl, roedd pawb yn ddiolchgar iawn iddo am ei amser . Cafwyd cyfarfod byr a'n Llywydd yn llongyfarch pedair o'n haelodau am ddod yn gydradd ail yng nghystadleuaeth Cwis Merched y Wawr allan o 19 tîm - camp arbennig o dda. Bu aelodau Merched y Wawr yn canu carolau ar 16eg o Ragfyr yn Eglwys Llanybydder.

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Aled Davies a Melanie, 13 Rhydybont ar eu dyweddïad ddydd Nadolig. Pob dymuniad da i chi eich dau i'r dyfodol.

Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â Mrs Avril Davies ac Evan, Heddfryn ar farwolaeth priod a thad annwyl ym mherson Shanco Davies a fu farw yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Sam a Daniel, Aneurin a Glenys a'r teulu oll ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt – yn gardiau, blodau, galwadau, rhoddion a chyfraniadau i'r swm o £2,440.00 tuag at Feddygfa Brynmeddyg, Llanybydder yn dilyn marwolaeth mam annwyl Sam a Daniel, sef Susan Davies, 25 Bro Einon, Llanybydder ychydig amser yn ôl. Diolch hefyd i Gwilym C. Price ei fab a'i ferched, Llambed am drefnu'r angladd mewn ffordd mor deimladwy. Gwerthfawrogir y cyfan oll yn fawr iawn.

Gyrfa Chwist

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus iawn yn Neuadd yr Eglwys Llanybydder ar nos Fercher yr 19 o Ragfyr. Dyma'r gyntaf o dair sydd yn cael eu trefnu gan Jack Jenkins, Gelli House.

Enillwyd y sgôr uchaf gan Harry Wlliams, Felinfach . Roedd y wobr o dwrci ffres yn rhoddedig gan Dai a Mair Davies Pensingrug. Dynion - Rhannu y Cyntaf a'r Ail rhwng Bowen Jones, New Inn a Gerwyn Jones, Cellan. Cyntaf Merched – Jean Jones, Alltwalis. Ail – Rhannu rhwng Donna Williams, Aberaeron a Ray Harries, Llanllwni. Rhoddwyd y gwobrau gan Sulwen Morgan, Llambed; Jack Jenkins, Alltyblaca; Dewi Davies a Bethan McMullan Llanybydder. Bwbi – Evan Jones, Aberarth a Cledwyn Davies, Maenygroes.

Rhif ar y garden – Lizzie Jones, Talgarreg. Curo allan – Cyntaf Margaret Jones, Pentrebach a Irwel Jones, Farmers; Ail – Velvor Jones, Talgarreg a Beryl Roach, Felinfach. Y gwobrau yn rhoddedig gan George Thomas, Cigydd.

Rhoddwyd y gwobrau raffl gan Hyw a Eva Davies, Ornant; Eirwen Thomas, Pontsian; Jean Evans, Gorsgoch; Ifor Davies, Coedybryn; Tafarn Glanyrafon; Peggy Davies, Llanllwni; Beryl Roach, Felinfach; Aneurin a Glenys Davies, Llanybydder; Gerwyn Jones, Cellan; Bara Gwalia Llanybydder; Nancy Davies Llambed; Olwen Williams, Maesymeillion; Ifor Rees, Llanfihangel ar arth; Ray Thomas, Llanwnen; Islwyn Iago, Aberteifi.

Enillwyr - Arfion Tymawr; Mair Davies, Prengwyn; Wendy Davies Felinfach; Betty Jones Tymawr; Eleri Jones Llanybydder; Mair Thomas Llanybydder; Brian Jones Llanllwni; Wendy Brooker Llanfihangel; Tommy Jones Croeslan; Irene Jones Llanybydder; Maggie Vaughan Felinfach; Glenys Lewis Llambed; Velvor Jones Talgarreg; Betty Davies Llanybydder; Brian James Trelech; Ann Jones Llanybydder; Audrey Evans Pencarreg; Gerwyn Jones Cellan a Elinor Williams Ciliau Aeron.

Talwyd y diolchiadau gan Mair Evans o Gangen Llanybydder o'r Gymdeithas Diabetes. Diolchodd i bawb am eu rhoddion at y chwist a'r raffl ac am gefnogi'r chwist ac i Jack Jenkins am wneud yr holl drefniadau. Diolchodd hefyd i aelodau cangen leol y Gymdeithas Diabetes am baratoi'r bwyd.

Yn ystod y noson cyflwynodd Jack Jenkins dair siec o £1100 yr un i Sefydliad Prydeinig y Galon, Cancr UK Cymru a Diabetes UK Cymru, sef elw tair Chwist Gaeaf yn 2006/2007.

Diolchodd swyddogion y dair elusen iddo am y siec ac am ei waith caled. Bydd y chwist nesaf ar y 27ain o Chwefror.

Gan fod Cartrefle, Alltyblaca wedi cau erbyn hyn, cyflwynodd aelodau o bwyllgor Cyfeillion Cartrefle sieciau o £334.13 yr un i'r dair elusen, arian a oedd yn weddill ganddynt yn y coffrau. Diolch yn fawr iawn iddynt.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Rhiannydd Evans, Blaengwenog ar golli ei phriod Jack yn ddiweddar.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Owain Evans sydd wedi dechrau yn nosbarth y babanod. Mae wedi setlo'n dda ac yn hapus iawn. Croeso hefyd i Ffion Harries a Hanna Thomas sydd wedi dechrau yn yr Ysgol Feithrin.

Croeso i Mrs Sian Harries sydd wedi dechrau fel cynorthwywraig dosbarth rhan amser yn yr ysgol a Mandy Van Ryswyk, cynorthwywraig yn yr Ysgol Feithrin. Codwyd £192 tuag at gronfa'r ysgol trwy'r cwis Nadolig.

Yr enillwyr oedd:-
1af Dafydd Morgans, Blaengorlech
2ail Owain Evans, 10 Bryndulais
3ydd Steffan Thomas, 14 Bro Nantlais, Gwyddgrug. Diolch i bawb a gefnogodd.

Diolch i Mike a Lorraine y Swyddfa Bost am drefnu raffl gan gyflwyno'r elw o £70 i'r ysgol. Dymunwn adferiad buan i Mike. Diolch hefyd i Dave y Talardd am drefnu disgo a bwyd i'r plant adeg y Nadolig.

Daeth Peter Lambert i wneud sgiliau syrcas gyda'r plant ddydd Mercher Ionawr 23ain.
Dyma enillwyr Clwb Cefnogwyr yr ysgol am fis Ionawr:-
£10 - 74 Julie Evans, Bryngwyn, Llanybydder
£5 - 64 Mark & Louise, 2 Bro Merau, Rhydcymerau
£2.50 - 170 Hywel & Ruth Evans, Maes-yr-Onnen
£2.50 - 97 Eifion Jones, Hafandeg
£2.50 – 123 Angharad Jones, Brynllwni

Cydymdeimlo

Drwg iawn oedd clywed am farwolaeth un o hoff gymeriadau yr ardal, Evan David Jones, Fferm Talardd ac yntau yn ddiweddar wedi cyrraedd ei 90 oed. Yr oedd wedi bod yn ffermio Talardd am dros hanner can mlynedd ac yn berson hoffus iawn. Estynnir cydymdeimlad â Maud ei briod ac Eleri y ferch a'r teulu.

Hefyd, cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Mari Gaveston-Knight, Honnington Hall ar golli ei chwaer, Myfanwy o ardal Aberystwyth yn ddiweddar

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i Gary Owen ac Eirlys Davies, Cwmderi ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

Hefyd i Bleddyn Thomas, Neuadd-deg ar ei ddyweddïad yntau â Meryl Morgan, Llanddeusant.

Pob dymuniad da i'r ddau gwpwl.

Diolch

Dymuna Douglas Parry, Borthyn ddiolch am y cardiau, anrhegion a galwadau ffôn a dderbyniodd pan oedd yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar. Diolch yn fawr i bawb.

80oed

Dathlodd Mrs Maud Jones, Fferm Talardd ei phen-blwydd yn bedwar ugain oed yn ystod mis Ionawr. Iechyd da eto i'r dyfodol gan obeithio eich bod wedi cael diwrnod i'w gofio.

C.Ff.I. Llanllwni

Llongyfarchiadau i Rhian Davies o C.Ff.I. Llanllwni am ennill cwpan yr unigolyn gorau yn yr adran Iau yng nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Sir Gâr. Pob hwyl i ti wrth gynrychioli'r Sir fel Cadeirydd ar lefel Cymru.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Evan David Jones, Fferm Talardd ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r galwadau a phob caredigrwydd ar adeg eu profedigaeth.

Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni - Agoriad Swyddogol 16eg Chwefror

Mae yna groeso i chi ddod i ddathlu agoriad swyddogol Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni a'i gweld ar ei newydd wedd ar y 16eg o Chwefror. Bydd yna weithgareddau ar gael rhwng 1 a 3 y prynhawn yn amrywio o osod blodau, i sesiwn camera digidol, gwaith crefft, tylino babanod ynghyd â sesiwn ymarfer corff ar gyfer plant ac oedolion. Felly, dylai fod yna rywbeth at ddant phawb. Yr ydym yn falch i wahodd yn ôl Mrs Nancy Jones, person cyfarwydd i bawb, i agor y neuadd. Yn dilyn yr holl weithgaredd yma fydd yna de parti i ddathlu.

Byddai'r trawsnewid yma ddim wedi bod yn bosib heb gymorth ariannol oddi wrth Bwyllgor Neuadd Bentref Llanllwni, 1 Gronfa a Chronfa Gymunedol Cyngor Sir Gâr, Rhaglen Gyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol Llywodraeth Cynulliad Cymru a chymorth ac arweiniad Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr, dan y cynllun PACT. Hyd yn hyn mae dros 750 awr o amser gwirfoddol wedi eu cyfrannu gan bobl leol yn rhoi eu hamser i glirio, paentio, creu llwybrau a chyfrannu peiriannau i gwblau'r gwaith ac mae'n diolch yn fawr iddynt am eu haelioni.

Ffarmers

Neuadd Bo Fana

Cynhaliwyd Cinio Blynyddol y Cyngor Rheolaeth yn Y Drovers' Arms nos Fawrth, y 12fed o Ragfyr, a chafwyd gwledd o fwyd a chryn dipyn o hwyl a sbri fel arfer. 'Roedd Mrs Ethel Davies a Mrs Judy Jenkins wedi trefnu cwis i ddiddori'r ciniawyr – diolch iddynt am roi eu hamser i wneud y paratoadau. Y nos sul cyn y Nadolig, sef y 23ain o Ragfyr, daeth cynulleidfa dda ynghyd ar gyfer y Cyngerdd a'r Noson Garolau flynyddol. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Mr Dewi Williams a Mr Aled Williams yn cynrychioli Capel Ffaldybrenin; Mrs Joan Morgan a Mr Elfyn Davies o Capel Bethel, Cwm Pedol; Mrs Ethel Davies a Mrs Judy Jenkins o Eglwys Llanycrwys; Mrs Ann Jones, Miss Carwen Richards a Mr Eirian Jones o Gapel Salem Caio; a Mr a Mrs Bob Lewis o Gapel Saron, Cwm Twrch. Arweiniwyd y Noson yn fedrus gan Gadeirydd Cyngor y Neuadd, Mr Eirian Morgan, gyda'r Hybarch Andy John yn cyhoeddi'r fendith. Eleni, cawsom gwmni Côr Lleisiau'r Werin o Lanybydder, o dan arweiniad Mrs Elonwy Davies, yn cyfrannu eitemau yn ystod y noson, a chafwyd mwynhad mawr yn gwrando arnynt yn cyflwyno amryw o eitemau ag iddynt naws y Nadolig. Penderfynwyd cyflwyno elw'r noson at elusen Ambiwlans Awyr Cymru, a rhaid diolch i Miss Lowri Davies, Llys Helen, sydd yn gweithio gyda Banc Barclays yn Llambed, am drefnu noddi'r noson o dan gynllun £1 am £1 Barclays. Llwyddwyd i godi £500 o'r noson, a chyflwynir siec am y swm yma i'r Ambiwlans Awyr ar nos Lun, yr 11eg o Chwefror. Estynnir croeso cynnes i ddarllenwyr Clonc i ymuno â ni ar y noson.

Ffair Grefftau Flynyddol

Cynhaliwyd y bedwaredd Ffair Grefftau Nadolig yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint ar ddydd Gwener, Tachwedd 30ain a dydd Sadwrn, Rhagfyr 1af 2007. Arddangoswyd amryw o grefftau gan grefftwyr lleol - 'roedd yn wledd i'r synhwyrau! Ymhlith y pethau y gellid eu prynu gwelwyd lluniau wedi eu harlunio, ffotograffiaeth, 'decoupagé', gwaith coed, cacennau, jam a phicl, gemwaith, cardiau o bob math, addurniadau Nadolig, clustogau, brodwaith ac eitemau yn cynnwys perlysiau. Cefnogwyd y Ffair gan ymwelwyr yn gyson drwy'r ddau ddiwrnod ac roedd modd cael paned o de a chlonc yn ogystal â siopa. Hoffai'r trefnwyr a'r arddangoswyr ddiolch i bawb am eu haelioni - fe adlewyrchwyd hynny yn y cyfanswm o £300 a godwyd ar ran elusen Canser y Fron. Gwnewch nodyn o'r dyddiadau ar gyfer y bumed Ffair, sef Tachwedd 28ain a 29ain 2008.

Eglwys Llanycrwys

Cynhaliwyd Gyrfa Chwist flynyddol Eglwys Llanycrwys yn y Neuadd ar nos Lun, Rhagfyr y 3ydd. Cafwyd noson hwylus gyda Mrs Stella Davies, Pantfud yn arwain y gweithgaredd.

Croeso

Mae'n hyfryd cael croesawu Mr a Mrs Alvin Morgan yn ôl i'r pentref. Maent bellach wedi ymgartrefu yn Nhrefechan, nid nepell o Lys Meirion lle bu'r teulu yn byw tan ychydig flynyddoedd yn ôl.

Cyngerdd Clasurol

Cafwyd cyfle unwaith eto i groesawu Cerddorfa Siambr Llambed o dan arweiniad Mrs Elaine Parker o Tyncornel, Ffarmers, yn ôl i'r Neuadd ar brynhawn dydd Sul, y 27ain o Ionawr i gynnal cyngerdd o gerddoriaeth glasurol. Cafwyd prynhawn hwylus yn eu cwmni eleni eto, a pherfformiwyd gwaith gan Rossini, Bach, Bartok, Mozart a Haydn. Mae'n hyfryd gweld cerddorion amatur yn dod at ei gilydd, ac yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddatblygu eu doniau gyda'r gerddorfa.

Lloffa

Os oes gennych ddiddordeb mewn enwau lleoedd, dewch i'r Neuadd ar nos Fawrth, yr 11eg o Chwefror i wrando ar Yr Athro David Thorne o Goleg Dewi Sant, Llambed a fydd yn 'lloffa ym myd enwau lleoedd lleol'. Mae'n siwr y bydd hon yn noson ddifyr, gyda chyfle i ddysgu am darddiad enwau rhai o'r lleoedd o gwmpas yr ardal yma. Bydd y noson yn dechrau am 7.30 y.h., a noddir y digwyddiad gan 'Milltir Sgwâr'. I'r rhai hynny nad ydynt yn deall Cymraeg, fe fydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.

Trwydded Cldo Anifeiliaid

Os ydych chi yn un o'r ffermwyr hynny sydd angen trwydded ar gyfer cludo anifeiliaid o gwmpas, mae'r amser yn pwyso. Mae cwrs wedi ei drefnu ar eich cyfer yn Neuadd Bro Fana ar nos Iau, Chwefror y 7fed 2008. Bydd y cwrs yn cynnwys hyfforddiant yn ogystal â'r prawf. Os oes gennych ddiddordeb yn y cwrs, cysylltwch â Mr John Mercer ar 01558 650231 neu Mr Rhys Davies ar 01558 650507 cyn gynted â phosibl.

Archif Gymunedol o hen Luniau

Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â lluniau diddorol o fywyd cymunedol ym mhlwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys i ddod â'u lluniau i Neuadd Bro Fana, Ffarmers nos Wener, yr 22ain o Chwefror rhwng 7.00 a 9.00 o'r gloch yr hwyr; prynhawn dydd Sadwrn, y 23ain o Chwefror rhwng 1.00 a 5.00; ac ar brynhawn dydd Sul, y 24ain o Chwefror rhwng 1.00 a 5.00. Bydd cyfle i sganio eich lluniau, a'u storio ar ffeil cyfrifiadur, a chewch fynd â'r gwreiddiol yn ôl gyda chi'n syth. 'Rydym yn chwilio am luniau yn ymwneud â bywyd cymunedol e.e. addysg, crefydd, eisteddfodau, bywyd fferm, adloniant, sioeau, gwaith, digwyddiadau hanesyddol a diddorol. Yn wir, unrhyw beth sydd o ddiddordeb lleol dros y ganrif ddiwethaf. Dewch â chymaint o wybodaeth ag y medrwch gyda chi am y lluniau. Bydd cyfle am sgwrs a phaned wrth i chi aros. Y bwriad yw sefydlu Archif Gymunedol ar gyfer y dyfodol.

Nodyn i'ch dyddiadr
Neuadd Bro Fana,
Chwefror 11eg 2008 am 7.30 y.h.- 'Lloffa ym myd enwau lleoedd' yng nghwmni'r Athro David Thorne a chyflwyno siec i Ambiwlans Awyr Cymru.
Chwefror 22 / 23 / 24 - Penwythnos Sganio Hen Luniau Ebrill 12fed 2008 am 8.00 y.h.
- Cwmni Cudyll Coch, Llandeilo yn perfformio dwy gomedi
Mai 23ain am 8.00 y.h. Noson Caws a Gwin

Rhifyn mis Mawrth
Yn y Siopau
Mawrth 6ed
Erthyglau i law erbyn
Chwefror 22ain
Newyddion i law erbyn
Chwefror 26ain

REFLEXOLOGY

Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni
* Migranines
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy

Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones

Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen

Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel, Cladinau Wal, yn ogystal â Gwelyau, Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

D Aled Evans
Plymwr a Pheiriannydd Gwresogi

Gosodwr a Chynhaliwr
- Systemau gwresogi
- Baddonau a chawodydd
- Gwresogyddion mewn lloriau
- Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio

Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 🖷 01570 423244

Rali Dathlu'r Gymraeg

cymdeithas yr IAITH gymraeg

Diwrnod i'r Teulu cyfan ddathlu a chael hwyl gyda Cherddoriaeth, Stondinau a chyfle i lofnodi mur cefnogaeth i Ddeddf Iaith.

11am, 23/02/08
Ger adeilad y Senedd
Bae Caerdydd

Siaradwyr:
Owen John Thomas
Hywel James
Hywel Griffiths

www.cymdeithas.org
01970 624501

Mudiadau Dathlu'r Gymraeg

Rydym ni'n falch o fod yn rhan o Fudiadau Dathlu'r Gymraeg gyda:
Urdd Gobaith Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Cymuned, Cymdeithas Alawon Gwerin, UMCA, UMCB, RHAG, UCAC, Undeb Amaethwyr Cymru, Mudiad Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a Mentrau Iaith Cymru.

---

cynnal Ceredigion

Annog cyfleoedd menter yng Ngheredigion trwy ddatblygu sgiliau lleol

Mae Cynnal Ceredigion yn cynnig ystod eang o HYFFORDDIANT gan gynnwys:

Trefnu Gwyliau a Digwyddiadau Cymunedol

Tystysgrif Diogelwch i Wirfoddolwyr

Datganiadau i'r Wasg

Defnyddio System Sain

Sylwebwyr Cymunedol

Bydd Cynnal Ceredigion yn trefnu
Ffair Gyllido a Chodi Arian
yn y Gwanwyn

Am rhagor o wybodaeth, cysyllter â:
Carys Ann Evans, Cynnal Ceredigion,
ANTUR TEIFI, 36-38 Pendre,
Aberteifi, Ceredigion SA43 1JS
Ffôn: 01239 622439
E-bost: carys.evans@anturteifi.org.uk

Antur Teifi

Ariennir a hwylusir Gweithredu dros Gymunedau Gwledig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Rural Community Action is funded and facilitated by the Welsh Assembly Government

---

Eisteddfod Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro

Prosiect PAPURAU Bro Ceredigion a Sir Benfro

Mawrth 20fed 2008 am 7.00 y.h.
yng Ngwesty Llanina, Llanarth.

Ifan Gruffydd yn arwain noson o gystadlaethau hwyliog gyda naws gartrefol.

Dewch i roi cynnig ar ddynwared, dweud stori gelwydd, gorffen limrig neu dim ond i weld pa bapur bro gaiff y brif wobr gan ein beirniad, Dewi Pws' Morris.

Mynediad am Ddim
Am fwy o fanylion galwch Guto Jones ar 01239 622446

Antur Teifi

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Ydych chi erioed wedi meddwl am agor garej, cael busnes DIY eich hun, neu gynnig gwasanaeth?

Oes gennych chi syniad, ond ddim yn siwr beth i 'w wneud amdano?

Oes angen cymorth arnoch i ddatblygu eich syniadau?

Rydym yn cynnig:
- Gwybodaeth am hyfforddiant a chyllido
- **Trafodaethau un-i-un a chyrsiau di-dâl**
- Cymorth gyda chostau gofal plant
- **Gwasanaeth sy'n cwrdd ag anghenion yr unigolyn**
- Cefnogaeth i ddatblygu hunangyflogaeth a'ch syniadau busnes chi
- **Cymorth i ddatblygu cynllun gwaith i gyrraedd eich nodau**
- Canllawiau ar gydbwysedd gwaith a bywyd
- **Awyrgylch gyfeillgar ac anffurfiol**

Cynigir gwasanaeth cefnogi a gwybodaeth cyn-busnes di-dâl a gaiff ei ddarparu i gwrdd ag anghenion y cleient.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
Jane Pugh, Antur Teifi 01239 621828

Antur Teifi

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1 EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government

Yn y Gegin gyda Gareth

Cegin llawn cennin a chawl.

Oes, mae yna wynt a blas cennin yn y gegin y mis yma wrth i ni baratoi i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Bydd mudiadau di-ri yn dod ynghyd i fwynhau nosweithiau 'Cawl a Chân'. Hyfryd fod y traddodiadau yn parhau yn ein pentrefi. Pleser i mi bob blwyddyn yw gweld y Cennin Pedr yn deffro o'r pridd i harddu ein hardaloedd a chreu'r 'milltiroedd melyn.'

Mwynhewch ddathliadau Gŵyl Ddewi;

Pob hwyl,

Gareth

Teisen Gŵyl Ddewi

Cynhwysion

100 gm / 4owns o fenyn neu fargarin
100 gm / 4owns o siwgwr caster
2 ŵy wedi'u curo'n ysgafn
225 gm / 8 owns o flawd codi wedi'i wagru
100 gm / 4owns o ffrwythau sychion
50 gm / 2owns o geirios wedi'u golchi a'u sleisio.

Dull

1. Irwch a leiniwch tun dwfn crwn 18 cm / 7modfedd.
2. Cymysgwch y menyn neu'r marg gyda'r siwgwr nes yn ysgafn gwlanog.
3. Yn raddol, cymysgwch yr wyau gan ychwanegu ychydig o'r blawd.
4. Cymysgwch y ffrwythau sych â'r ceirios gyda llond llwy fwrdd o'r blawd.
5. Yn araf ychwanegwch weddill y blawd ac yna'r ffrwythau. Llenwch y tun gan wastatáu'r cyfan.
6. Rhowch mewn ffwrn ar wres 180°C; 350°F; Nwy 6; am awr i awr a hanner. Profwch trwy wthio sgiwer i'r gacen; bydd yn barod pan ddaw honno allan yn lân. Gadewch i oeri am 5 munud cyn ei throi allan i oeri'n gyfan gwbwl.
   Tip Tymhorol – I gael wyneb y gacen yn wastod defnyddiwch lwy fawr fetel wedi'i thwymo mewn dŵr twym.
   Defnyddiwch gefn y llwy i wastatáu'r gymysgedd. Ail dwymwch y llwy os bydd y gymysgedd yn glynu wrthi.

Pice Planc

Cynhwysion.

225 gm / 8owns o flawd plaen
¼ llond llwy de o halen
½ llond llwy de o 'bicarbonate o soda'.
1 llond llwy de o 'cream o 'tartar'
25 gm / 1 owns siwgwr caster
1 ŵy
300 ml / ½ peint o laeth

Dull

1. Hidlwch gyda'i gilydd y blawd, halen, bicarb a'r 'cream o `tartar'.
2. Ychwanegwch y siwgwr a gwnewch dwll yng nghanol y gymysgedd. Curwch yr ŵy a'r llaeth yn raddol i wneud cymysgedd trwchus.
3. Irwch y 'planc' neu ffreipan drwm ac arllwyswch lwyed fawr o'r gymysgedd gan adael digon o le i'r gymysgedd redeg.
4. Pan y gwelwch wyneb y gymysgedd yn dechrau ffurfio swigod trowch nes fod y cyfan wedi coginio. Fe gymer o 5 – 10 munud. Gweinwch mewn napcyn glân i gadw'r pice'n gynnes a meddal.

Cennin mewn Saws.

Cynhwysion.

8 cenhinen gymhedrol eu maint Halen

I'r Saws –

25 gm / 1owns o fenyn, 25 gm / 1owns o flawd plaen
150 ml / ¼ peint o laeth; 75 gm / 3owns o gaws Cheddar wedi'i gratio.

Halen a phupur ac ychydig fwstard sych.

Dull.

1. Golchwch y cennin a'u torri yn eu hanner ar eu hyd. Rhowch mewn sosban gydag ychydig halen a digon o ddŵr i guddio'r cyfan, rhowch i fud ferwi am ddeg munud. Cadwch 150ml / ¼peint o'r hylif gogyfer â'r saws. Rhowch y cennin mewn disgyl i'w cadw'n gynnes.

2. I wneud y saws, toddwch y menyn neu'r marg dros wres isel ac ychwanegwch y blawd gan goginio'r cyfan am ddwy funud. Yn raddol, ychwanegwch yr hylif a'r llaeth gan gofio troi y gymysgedd drwy'r amser. Dewch â'r cyfan i'r berw a'i gadw i fud-ferwi am ychydig. Tynnwch o'r gwres ac ychwanegwch y caws, yr halen a'r mwstard.

3. Arllwyswch dros y cennin a gweinwch yn syth.

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Fasech chi'n licio ffortiwn?

A fyddai ardal Llanbed yn licio cael rhyw £120,000 bach i'w wario ar adnoddau chwaraeon, falle, neu gelfyddydau, neu ryw achos da arall. "Byddai, glei," meddech chi. "A tyff," meddaf finnau.

Fydd yr ardal ddim yn cael y £120,000 ac, i wneud pethau'n waeth, mi fydd hi'n cyfrannu'r arian i un o'r dinasoedd mwya' cyfoethog yn y byd i gyd.

Swm ar gefn amlen ydi hon ond rhywbeth tebyg i hynna fydd colled uniongyrchol yr ardal yma oherwydd y Gêmau Olympaidd yn Llundain yn 2012 – mae'n fwy na £23 am bob copa walltog (a moel) sy'n byw yng Nghymru.

Mewn gwirionedd, mae'n eitha' sicr fod y swm yn llawer mwy. Tua £70 miliwn ydi'r swm y bydd Cymru'n ei golli mewn arian at weithgareddau ac achosion da, oherwydd fod arian Loteri a chronfeydd eraill yn cael ei anfon i gefnogi'r Gêmau yn Llundain.

Ond mae yna arian cyhoeddus mawr hefyd yn cael ei wario ar ddatblygu a gwella'r ardal lle bydd y gêmau ac mae'n eitha' sicr y bydd rhagor yn cael ei sleifio yno o dan y cownter cyn i'r sbloet fawr ddechrau.

Maen nhw'n Gêmau i wledydd Prydain i gyd, meddai'r Llywodraeth, ond peidiwch â choelio gair. Yr unig beth a gawn ni ydi'r cyfle i wario ffortiwn ar diced i'r Gêmau a mwy fyth ar gyrraedd Llundain ac aros yno.

O ganlyniad i'r Gêmau, mi fydd rhan arall o brifddinas Lloegr yn cael ei datblygu er mwyn sugno rhagor eto o gyfoeth gwledydd Prydain i'r gornel honno yn y de ddwyrain.

Y tro nesa' y bydd rhywrai yn dweud fod arian yn rhy brin i wneud y peth yma neu'r peth arall, fydd dim ond angen gwneud mosiwns fel rhedeg neu neidio neu daflu'r javelin.

Nid eithriad ydi hyn chwaith. Ar hyd y blynyddoedd, mae Llundain wedi sugno a llyncu arian a chyfoeth. Mae'r holl system economaidd wedi ei hystumio i wneud yn siŵr fod y fan honno'n gwneud yn dda.

A ni sy'n gorfod talu.

Tydw i ddim wedi bod yn y Llythyrdy yn Llanbed ers misoedd. Ddim ers iddyn nhw gau'r swyddfa yn y dre' a symud i'r Co-op. Roedd hynny siŵr o fod yn gamgymeriad anferth ar ran y penaethiaid.

Mae hi'n llawer mwy anodd mynd i'r post bellach. Nid dim ond i bobl oedrannus sydd, efallai, heb gar, ond i unrhyw un sydd heb yr amser na'r amynedd i daro draw yno amser cinio.

Bellach, mi aeth yn haws i lawer ohonon ni wneud pethau tros y We a does dim angen galw wrth y cownter am fawr ddim bellach. Wrth symud y Llythyrdy, mi ddangosodd Swyddfa'r Post ei bod yn bosib gwneud hebddo.

Lle cynt roedd pobl yn galw yno i dalu ambell fil neu godi ambell drwydded yn rhannol er mwyn cefnogi'r criw oedd yn ei redeg; does dim o'r fath deyrngarwch bellach. Nid Timothy ydi'r Co-op.

Roedd y symud yn sicr yn gamgymeriad o ran Llanbed. Roedd yna gyfle i'w gadw yn y canol a rhoi hwb i un o'r siopau lleol sy'n asgwrn cefn y dre'. Yn lle hynny, mi gafodd ei wthio o'r neilltu a rhoi hwb i gwmni mawr.

Mae'n nodweddiadol o lawer o benderfyniadau – maen nhw'n cael eu gwneud ar eu pen eu hunain heb ystyried yr oblygiadau pellach. Efallai bod symud y Llythyrdy'n gwneud sens ar un olwg, yn y tymor byr; yn y tymor hir, o ran dyfodol y dre', roedd yn drychineb bach.

Mae'r Llywodraeth yr un mor euog. Ar un llaw, maen nhw'n dweud fod eisio adfywio canol trefi; maen nhw'n dweud fod rhaid i'r Llythyrdy ddechrau talu'i ffordd.

Ar yr un pryd, maen nhw'n symud llawer o'u busnes oddi yno – yn bensiynau a ffurflenni – gan siŵr fod llai o angen i bobl fynd yno. Llai o wasanaethau'n arwain at lai o bobl yn arwain at lai o fusnes yn arwain at lai o wasanaethau.

Chweldau Chwim

Mae'r Lolfa newydd rhyddhau cyfres newydd o bump o chweldau Cymreig ar gyfer plant. Mae'r gyfres Chwedlau Chwim wedi eu hanelu at blant tua 7-9 oed sy'n medru darllen yn annibynnol.

Mae gan Meinir Wyn Edwards 18 mlynedd o brofiad fel athrawes mewn ysgolion cynradd. Rwy wedi ceisio apelio at blant o bob cwr o Gymru – o Ferthyr i Nant Gwrtheyrn - at fechgyn a merched, a dod â rhyw ogwydd ffres i bob un o'r chwedlau."

Gini Wade yw arlunydd y gyfres. Mae 11 o luniau llawn lliw ym mhob un o'r llyfrau 24 tudalen o hyd ac maent yn ychwanegu at naws a mwynhad y testun bob tro. Cantre'r Gwaelod, Rhys a Meinir, Dic Penderyn, Gwylliaid Cochion Mawddwy a Maelgwn Gwynedd yw'r teitlau yn y gyfres. I gyd-redeg â Chwedlau Chwim, mae Y Lolfa yn cyhoeddi'r gyfres 'In a Flash!' ar yr un pryd, sef addasiadau Saesneg o'r 5 llyfr Cymraeg.

Cega !!!

gan Llinos Dafydd

Prosiect PAPURAU Bro Ceredigion a Sir Benfro

Hei ho, dyma dudalen yn llawn chyffs a cerddoriaeth. Felly bawd lan, a gwenwch!

Rhys Evans – bys ar y botwm

Pobol y Chyff - un o'n modern-classics ni fel Cymry Cymraeg heb os oedd y rhaglen. Roeddwn i'n falch iawn pan y darlledwyd y rhaglen yn wreiddiol a hynny ddiwedd yr wythdegau/ddechrau'r nawdegau ond mae cof plentyn gen i o hyd.

Cymaint oedd dylanwad y rhaglen nes iddi effeithio ar ein geirfa ni fel teulu - er enghraifft mae fy nheulu i'n galw remote control y teledu yn "twiglydd" sef y cyfieithiad Cymraeg a fathodd y Brodyr Frank ar y sioe. Mae'n gyfieithiad gwych ac mae'n parhau.

Y rhifyn gyda Dafydd El yn westai sydd ar frig y rhestr i mi - roedd y gân, sef addasiad o My Sweet Lord gan George Harrison, yn wych!

Baswn i wrth fy modd pe bai S4C/Sain yn rhyddhau DVD o'r rhaglenni yma. Gyda Rhys Ifans wrth gwrs yn actor byd enwog erbyn hyn, gallai'r gyfres ddwyn sylw rhyngwladol i'r diwylliant Cymraeg.

Wedi dweud hynny dwi ddim yn meddwl y byddai modd cyfieithu'r hiwmor y tu allan i'w gyd-destun diwylliannol chwaith.

Yn y sîn...

Os nad ydych chi wedi cael gafael yn albym diweddara' Fflur Dafydd, y ferch amryddawn o Ddyffryn Teifi, ewch i'ch siop Gymraeg leol nawr.

Ar ôl profi chwyldro y gitâr drydanol, mae hi wedi cefnu ar ei steil acwstig blaenorol ac wedi ychwanegu dimensiwn newydd a chyffrous i'w sain unigryw. Dyma ddechrau siwrne gerddorol newydd i Fflur Dafydd a'r Barf, ac o ganlyniad mae Rasal yn falch cael cyflwyno Un Ffordd Mas, ail albwm hir ddisgwyliedig y band.

Mae'r albwm, sy'n llwyddo i fod yn ddiamser yn ogystal ag yn gyfoes, yn cynnwys toreth o draciau egnïol, angerddol a chofiadwy wedi'u cyfansoddi gan y gantores-gyfansoddwraig o Gaerfyrddin. Mae'r chwarae byw rhyngddi hi a'r Barf wedi'i drosglwyddo'n ddidrafferth i'r albwm ac mae'n amlwg ein bod yng nghwmni cyfansoddwraig grefftus, wahanol-i'r-arfer.

Mae dylanwad soul i'w glywed yn gryf ar yr albwm, gyda'r caneuon wedi'u haenu gydag offerynnau trydanol ac acwstig, gan gyfuno curiadau ffres a rhythmig gyda chanu angerddol, hypnotig.

Yn ogystal â chynnwys Helsinki, y sengl boblogaidd a gafodd ei rhyddhau yn gynharach eleni, a'r sengl Dala Fe Nôl, mae'r albwm hefyd yn cynnwys traciau newydd sbon a rheiny yn gyforiog o hiwmor tywyll, straeon swreal, ac agwedd afieithus, wrth i Fflur ddychwelyd i'w gwreiddiau storïol, a chreu cast o gymeriadau unigryw ar gyfer ei chaneuon.

Mae hefyd traciau mwy addfwyn i'w clywed ar yr albwm sy'n llawn soul melodïaidd a thyner, sy'n dangos hyblygrwydd dawn gyfansoddi Fflur, yn ogystal â'i amlochredd lleisiol.

"Mae cerddoriaeth Fflur yn neud i fi deimlo'n hapus", dywedodd y gantores Heather Jones, "Mae pawb yn hoffi Fflur! Fi'n hynod falch ei bod hi'n rhan o'r sîn ac yn disgwyl mlaen at ryddhad y CD newydd."

Bu llynedd yn flwyddyn brysur i Fflur Dafydd a'r Barf o ran sesiynau radio a theledu, wrth iddyn nhw recordio fideo i Bandit, ymddangos ar raglen Yr Ystafell Werdd gyda Bethan Elfyn a recordio Sesiwn C2.

Fe fu'r band hefyd ar daith fawreddog o gwmpas Cymru yn yr Haf, gan ymddangos mewn gwyliau poblogaidd yng Nghymru yn ogystal â Chroatia, yr Unol Daleithiau a'r Iseldiroedd. Yng nghanol y daith, fe gymerodd y band saib byr yn stiwdio Sonic One, Llangennech i gwblhau'r albwm gyda'r cynhyrchydd Tim Hamill.

Antur Teifi

YR UNDEB EWROPEAIDD AMCAN 1
EUROPEAN UNION OBJECTIVE 1
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

CROESAIR DIWRNOD Y LLYFR 2008

Cynhelir Diwrnod y Llyfr eleni ar 6 Mawrth, ac y mae'r Cyngor Llyfrau wedi trefnu croesair arbennig ar gyfer holl bapurau bro Cymru. **Bydd gwobrau o docynnau llyfrau gwerth £30 yr un ar gael i DRI enillydd lwcus a bydd papurau bro'r tri enillydd yn derbyn siec o £50 yr un.** Felly, dyma gyfle i dderbyn gwobr bersonol a chefnogi'ch papur bro yr un pryd!

AR DRAWS

1. *Tad-Cu yn* _ _ _ _ *ei Ben*, cyfrol gan Martin Morgan yng nghyfres Llyfrau Lloerig (4)
5. *Talu'r* _ _ _ _ _, nofel dditectif a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1951 yn rhan o gyfres o nofelau am y Ditectif-Inspector Hopkyn (4)
8. *I* _ _ _ _ *Cnau*, nofel gan Marion Eames am Gymry ifainc a gefnodd ar dlodi cefn gwlad i chwilio am frasach byd ar Lannau Mersi (4)
9. *Wrth fy* _ _ _ _ _ _ *i*, nofel sy'n mentro i fyd y gwrthodedig gan Angharad Tomos (6)
10. Enw cyntaf awdur yr hunangofiant *Coeliwch neu Beidio* (3)
11. *Olion* _ _ _ _ *Eira*, llyfr stori-a-llun a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Lyfrau Ceredigion (2, 2)
12. Enw cyntaf un o gymeriadau enwocaf Mary Vaughan Jones (4)
14. *Llyfr Natur* _ _ _ _ (4)
15. _ _ _ Campbell, awdur nifer o lyfrau ar gyfer plant bach (3)
16. *Gwalia ar* _ _ _ _ _ _ _, nofel hwyliog am Gymru rydd gan Marcel Williams (6)
19. Nofel rymus gan Llwyd Owen a enilloddgystadleuaeth Llyfr y Flwyddyn 2007 (3, 6, 6)
20. Hunangofiant Stephen Jones, *O Clermont i* _ _ _ _ _ _ _ (6)
24. *O'r* _ _ _ *Ir Twr*, rhagor o atgofion Charles Arch, awdur *Byw Dan y Bwa* (3)
25. _ _ _ _ _ *Glew Erwau'r Glo*, cyfrol gan Hywel Teifi Edwards ar ddelwedd y glöwr yn llenyddiaeth Cymru (4)
26. *Ci Da*, _ _ _ _, addasiad Cymraeg o *Mitch Saves the Day* gan Stephen Thraves yng nghyfres Ffred y Ffarier (4)
27. _ _ _ _ _ Nilsen, awdur llyfrau lliwgar i blant bach am Bonso'r ci (4)
28. *Y Llaw* _ _ _, nofel gref am yrrwr hers gan Alun Jones (3)
29. *Syllu* _ _ _ _ _ _ _, casgliad o 47 ysgrif gan Desmond Davies (2, 1, 3)
31. *Gwisgo'r* _ _ _ _ *Coch*, llyfr gan Elgan Philip Davies sy'n rhan o becyn o ddeunydd darllen difyr a baratowyd er mwyn hybu darllen ymhlith disgyblion ysgol (4)
32. _ _ _ _ _ (enw merch) *Cwm Cloch*, cyfrol gan Esyllt Maelor a gyhoeddwyd yn 1987 (4)
33. *Gwil* _ _ _ _ *a'r Gath Ddu*, nofel gan Siân Lewis i ddarllenwyr 9–11 oed am fachgen yn dyfeisio peiriant dychryn cathod (4)

I LAWR

1. _ _ _ _ *Oeri'r Gwaed*, nofel gan Islwyn Ffowc Elis a gyhoeddwyd yn wreiddiol yn 1952 (3)
2. *Mae* _ _ _ _ _ _ _ *gan y Lleuad*, nofel fywiog am brofiadau myfyrwraig nwydus gan Elin Llwyd Morgan (6)
3. Cyflwyniad deniadol i feini hirion a chromlechi, gyda ffotograffau gan David Glyn Lewis a thestun a cherddi gan Huw Dylan Owen (5, 10)
4. _ _ _ _ _ _ _ *wrth Garreg* gan Eigra Lewis Roberts (6)
5. Cyhoeddodd y Dewi hwn fwy o limrigau'n ddiweddar (6)
6. Un o weisg enwocaf Cymru (1, 5)
7. Nofel hanesyddol am ddioddefaint Indiaid y Navaho gan Eirug Wyn, *I Ble'r Aeth* _ _ _ _ _ _ _ _ (4, 1, 4)
13. Cyfrol o drefniannau i'r delyn Geltaidd gan Delyth Jenkins (2, 1, 3)
17. Un o gyfres o lyfrau am adar gan Ted Breeze Jones a gyhoeddwyd gan Wasg Dwyfor 'nôl yn 1981 (4, 2, 3)
18. Nofel ddiweddaraf 5 i lawr (6)
21. _ _ _ _ _ _ _ *Gwlad*, casgliad cyntaf o farddoniaeth y prifardd Elwyn Edwards (6)
22. Teitl cylchgrawn celfyddydol a nofel i blant gan Gwyn Morgan (2, 4)
23. Cymeriad yn nofel Llyfr y Flwyddyn 2005 gan Caryl Lewis (6)
24. _ _ _ _ _ _ *Plasywernen*, un o nofelau enwog T. Llew Jones (6)
30. Cyfrol yn llawn atgofion awdur a dreuliodd ei blentyndod ym Mrynrefail, *Nid Roc ond* _ _ _ (3)

Cofiwch mai un llythyren yw CH, DD, FF, LL, TH

ENW

CYFEIRIAD

ENW'R PAPUR BRO CLONC

Anfonwch y croesair at: Croesair Papur Bro, Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2JB, erbyn 30 Ebrill 2008. Gofalwch nodi eich enw a'ch cyfeiriad ac enw'ch papur bro lleol.

Gall chwilio gwefan www.gwales.com eich helpu gydag atebion

gwales.com llyfrau ar-lein

CYNGOR LLYFRAU CYMRU

DIWRNOD Y LLYFR 06.03.2008

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dôl-Mebyd,
Pencarreg,
Llambed.

Annwyl blant,

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi i gyd yn o lew ac heb wlychu gormod yn yr holl law ’ma. Wel mae Lincyn Loncyn bach wedi bod yn brysur yn ysgrifennu cardiau Santes Dwynwen a San Ffolant yn barod. Byw mewn gobaith nawr y daw un fach nôl! Ydych chi wedi bod wrthi?

Mae sawl un ohonoch wedi bod yn brysur yn lliwio ta beth, gyda safon arbennig iawn. Mae clod arbennig yn mynd y mis hwn i Miriam Butcher o Gaerdydd, Ewan Bowden o Ysgol Carreg Hirfaen a Steffan Holmes, Ysgol Llanwnnen yn ogystal â holl ddisgyblion Ysgolion Llanwnnen a Charreg Hirfaen. Da iawn chi gyd!

Ond yn dod i’r brig y mis hwn mae Heledd Jones, Ysgol Llanwnnen. Llongyfarchiadau mawr a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a’i ddanfon ataf erbyn Chwefror 25ain.





Enillydd y mis!

Heledd Jones

Enw:

Cyfeiriad:

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd adeg eu Sioe Nadolig.

Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr

Côr Ysgol Ffynnonbedr o dan arweiniad Mrs Carys Lewis yn Seremoni Agoriadol yr Ysgol

Disgyblion Ysgol Gynradd Ffynnonbedr mewn Noson Ryngwladol a gynhaliwyd yn yr ysgol yn ddiweddar.

O geiniog i geiniog...

Aelodau Capel Bethel Parcyrhos yn cyflwyno siec am £1,000 i Uned Oncoleg Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin – sef yr elw a wnaed yng nghyngerdd Côr Corisma.

Yn dilyn cyngerdd i godi arian i Bwyllgor Lles Llanwenog, fe godwyd £611.00. Dyblodd Banc Barclays y swm fel rhan o gynllun punt am bunt. Dyma Lynda Jones o gangen Llambed yn cyflwyno siec i aelodau'r pwyllgor.

Cyflwynwyd £150 yr un i Rhian Bellamy a Cerys Jones ar ran C.Ff.I. Llanwenog ac i David Fern ar ran Neuadd Gorsgoch.

Eryl Jones, cyn-gadeirydd y Sioe yn cyflwyno sieciau i Jane Mansfield ar ran meddygfeydd Teifi a Brynmeddyg; Catrin Evans ar ran Llys y Fran, ac Eiddwen Hatcher ar ran Taliesin.

Cyflwynwyd siec am £2,440 i Feddygfa Brynmeddyg, Llanybydder er cof am Sue Davies. Staff y feddygfa a ofalodd am Sue yn ystod ei brwydr â chansr ac roedd ei theulu yn awyddus i ddiolch iddynt am eu gofal. Gwnaed y cyflwyniad gan feibion Sue, Sam a Daniel Garside a'i rhieni, Aneurin a Glenys Davies. Derbyniwyd y siec gan reolwr y practis Carol Cook, Dr. Stephen Rowlands a Sister Ginny Chappell.

Prif-ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbed, Aled Thomas a Siwan Davies yn cyflwyno siec am £1,100, arian taith gerdded noddedig yr ysgol, i Jeff Williams, Cymorth Cristnogol. Yn y llun hefyd mae'r maer a'r faeres, y Cyng. a Mrs Chris Thomas; Dylan Wyn, Prifathro; Elaine Davies, Cadeirydd y Llywodraethwyr; Gareth Jones, Cyfarwyddwr Addysg a Mrs Jones.

Cyfeillion Cartref Cartrefle, Alltyblaca yn cyflwyno tair siec gwerth £330 yr un i'r elusennau canlynol: Diabetes UK Cymru; Cancr UK Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon.

Jack Jenkins yn cyflwyno sieciau o £1100 yr un i Sheila Davies o Sefydliad Prydeinig y Galon, Mair Evans, Diabetes UK Cymru ac i Aneurin Davies, Cancr UK Cymru. Elw Gyrfaoedd Chwist gaeaf 2007/2007.